


A large decorative graphic on the left side of the page consists of three overlapping circles. The largest circle is blue and partially cut off by the left edge. It overlaps with a smaller green circle on its left and another smaller green circle on its right. The central area where all three circles overlap is white.

Canllawiau i Ddarparwyr ar Arolygiadau a Graddau Gofal Plant, Chwarae a Mynediad Agored

Cynnwys

1	Ein rôl	4
2	Y sail gyfreithiol dros arolygu	4
3	Cyfnodau arolygu.....	5
4	Y fframwaith arolygu	5
5	Mathau o arolygiad a'u hamlder	7
6	Gwirio bod y lleoliad wedi'i gofrestru'n gywir	8
7	Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth.....	8
8	Egwyddorion arolygu	9
9	Atal a rheoli heintiau	10
10	Y broses arolygu	10
11	Arsylwi	10
12	Diwylliant sefydliadol.....	11
13	Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg	11
14	Sgoriau hylendid bwyd	12
15	Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.....	12
16	Sicrhau bod ein tystiolaeth yn gadarn	13
17	Egwyddorion sicrhau gwelliant a gorfodi	13
18	Adborth ac adrodd ar arolygiad	14
19	Yr adroddiad arolygu.....	14
20	Diogelu	16
21	Cyfrifoldebau'r darparwr ar gyfer diogelu	16
22	Rhestr o ddogfennau sy'n debygol o fod yn ofynnol at ddibenion arolygu	18
23	Graddau.....	19

Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r Cod Ymarfer ar gyfer Arolygu Gwasanaethau Gwarchod Plant, Gwasanaethau Gofal Dydd a Gwasanaethau Chwarae Mynediad Agored.

1 Ein rôl

1.1 Rydym yn arolygu a rheoleiddio lleoliadau gofal plant i sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn hybu llesiant y plant. Drwy ein harolygiadau, rydym yn gwneud y canlynol:

- darparu dulliau rheoleiddio ac arolygu effeithlon ac effeithiol o leoliadau gofal plant rheoledig ac adrodd ein canfyddiadau
- darparu sicrwydd annibynnol ar gyfer pobl sydd yn defnyddio lleoliadau ynglŷn â diogelwch ac ansawdd gofal plant yng Nghymru
- helpu i ddiogelu plant a sicrhau bod eu hawliau yn cael eu diogelu ac y gofelig amdanant gan bobl sy'n addas i wneud hynny
- gwella canlyniadau gofal a llesiant ar gyfer plant
- sicrhau bod darparwyr cofrestredig yn parhau i fodloni gofynion cofrestru
- darparu gwybodaeth a chynghor i Weinidogion Llywodraeth Cymru a'r Senedd ynglŷn â gofal plant

2 Y sail gyfreithiol dros arolygu

2.1 Rydym yn cynnal ein swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru wrth gadw ein hannibyniaeth ar Lywodraeth Cymru.

2.2 Rydym yn rheoleiddio ac yn arolygu gwarchodwyr plant, gofal dydd a darpariaethau chwarae mynediad agored ar gyfer plant hyd at 12 oed o dan y canlynol:

- Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010
- Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010
- Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Arolygu a Gwybodaeth ar gyfer Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2010
- Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010
- Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Cymru) 2010
- Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Rheoleiddio ar gyfer plant hyd at 12 oed

SYLWER. Mae rhywfaint o ddiwygiadau wedi bod i'r rheoliadau uchod ers eu cyhoeddi. Rydym hefyd yn ystyried canllawiau ar gyfer awdurdodau penodol yng Nghymru a Lloegr ar ddyletswydd ysgolion a darparwyr eraill, o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015.

3 Cyfnodau arolygu

3.1 Mae'r tabl isod yn nodi'r cyfnodau arolygu yn ôl math o leoliad

Mathau o leoliadau a reoleiddir	Trefn arferol
Gwarchod plant	36 mis
Gofal dydd llawn	24 mis
Sesiynol	36 mis
Gofal plant y tu allan i'r ysgol	36 mis
Crèche	36 mis
Chwarae mynediad agored	36 mis

4 Y fframwaith arolygu

- 4.1 Mae'r fframwaith arolygu yn amlinellu'r meysydd allweddol neu'r llinellau ymholi rydym yn canolbwyntio arnynt yn ystod yr arolygiad. Mae'r fframwaith yn darparu pedair thema, a rennir yn feysydd allweddol: llesiant, gofal a datblygiad, yr amgylchedd, ac arweinyddiaeth a rheolaeth.
- 4.2 Byddwn yn gwneud penderfyniad ar radd ar gyfer pob thema. Nid ydym yn rhoi gradd gyffredinol. Mewn lleoliadau mwy, rydym yn ystyried yr ystod o leoliadau sy'n gweithredu ar adegau gwahanol o'r dydd ac mewn gwahanol fannau yn y lleoliadau.
- 4.3 Mae'r tabl isod yn nodi'r fframwaith arolygu ar gyfer gofal plant a chwarae.

	Thema	Maes allweddol
P L A N T	1 Llesiant	1.1 I ba raddau mae gan blant lais?
		1.2 I ba raddau mae plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac wedi'u gwerthfawrogi?
		1.3 Pa mor dda mae plant yn rhyngweithio?
		1.4 I ba raddau mae plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu?
		1.5 Pa mor dda mae plant yn datblygu, yn dysgu a dod yn annibynnol?
S T A F F	2 Gofal a datblygiad	2.1 Pa mor dda mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?
		2.2 Pa mor dda mae ymarferwyr yn rheoli rhyngweithiadau?
		2.3 Pa mor dda mae ymarferwyr yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygu plant ac yn diwallu eu hanghenion unigol?
A R W E I N W Y R	3 Yr amgylchedd	3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?
		3.2 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?
		3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd adnoddau ac offer?
	4 Arweinyddiaeth a rheolaeth	4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?
		4.2 Pa mor effeithiol yw hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?
		4.3 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o reoli ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill?
		4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

5 Mathau o arolygiad a'u hamlder

- 5.1 Mae ein harolygiadau yn ganolog i'n model rheoliadol. Maent yn canolbwyntio ar y pethau sydd o bwys i ddatblygiad plant a'u llesiant.
- 5.2 Mae AGC hefyd yn cynnal arolygiadau ar y cyd ag Estyn. Rydym yn arolygu gofal ac addysg mewn lleoliadau rheoleiddiedig nas cynhelir sy'n gymwys i gael cyllid ar gyfer addysg ran-amser. Mae arolygiadau ar y cyd yn gwerthuso'r gofal a ddarperir ar gyfer plant hyd at 12 oed ac addysg plant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir. Gweler <https://arolygiaethgofal.cymru/y-blynyddoedd-cynnar-gofal-plant-sicrhau-gofal-dysgu-o-ansawdd>
- 5.3 Mae arolygiadau llawn fel arfer yn arolygiadau arferol, wedi'u cynllunio yn unol â'n hamserlen arolygu. Maent yn ystyried y pedair thema yn y fframwaith arolygu ac yn ein galluogi i wneud y canlynol:
- darparu sicrwydd fod y lleoliad yn ddiogel ac yn cydymffurfio â rheoliadau craidd a bod ganddo systemau a threfniadau llywodraethu priodol ar waith
 - adolygu cofrestriad y lleoliad: profi p'un a yw'r lleoliad yn dal i fodloni'r gofynion i fod yn gofrestredig a bod ei gofrestriad a'i ddatganiad o ddiben gyda'i gilydd yn darparu adlewyrchiad manwl gywir o'r lleoliad sy'n cael ei ddarparu
 - darparu arolygwyr â chyfle i ffurfio barn am ansawdd y lleoliad
- 5.4 Mae arolygiad llawn yn digwydd ar ôl i leoliad newydd gofrestredig ddod yn weithredol.
- 5.5 Caiff arolygiadau â ffocws eu cynnal fel arfer mewn ymateb i bryder neu i fynd ar drywydd diffyg cydymffurfiaeth (h.y. peidio â bodloni gofynion y gyfraith) â'r rheoliadau. Efallai y bydd yr arolygiadau hyn ond yn ystyried themâu penodol. Rydym bob amser yn defnyddio'r cyfle yn ystod arolygiad â ffocws i ystyried llesiant, gofal a datblygiad plant ac i wneud sylwadau arnynt, er ei bod yn bosibl na fydd hyn yn digwydd ar lefel fanwl nac yn cwmpasu'r ystodau oedran / amseroedd gweithredu / gwahanol ystafelloedd a mannau ag y byddem mewn arolygiad llawn.
- 5.6 Rydym yn mynd ar drywydd gwybodaeth yr ydym yn ei chael – er enghraifft, drwy archwilio cofnodion. Gallai hyn gynnwys dogfennau, polisïau, hyfforddiant staff a goruchwyliaeth ym maes gofal plant. Byddwn yn arsylwi arferion ac unrhyw ffyrdd eraill o gefnogi plant i gyflawni'r canlyniadau, er enghraifft fel yr amlinellir mewn cynllun datblygu.
- 5.7 Caiff graddau yn ystod arolygiadau â ffocws ond eu dyfarnu am thema lle mae gradd wedi cael ei hasesu'n flaenorol fel 'gwael' yn yr arolygiad diwethaf.
- 5.8 Mae ein harolygiadau yn ddirybudd. Ar gyfer gwarchodwyr plant a chwarae mynediad agored, fodd bynnag, byddwn fel arfer yn cysylltu â'r lleoliad dros y ffôn neu drwy neges e-bost un wythnos neu ddwy cyn i ni fwriadu arolygu i

wirio'r amseroedd gweithredu ac argaeledd y gwarchodwr plant. Mae hyn er mwyn osgoi ymweliadau aflwyddiannus. Diben yr alwad neu'r e-bost yw gwirio pa ddyddiau ac amseroedd y mae'r lleoliad yn gweithredu arnynt a chadarnhau ystod oedran y plant a fydd yn mynychu yn ystod wythnos yr arolygiad. Yn fwy anghyffredin, mae'n bosibl y bydd angen i ni gynnal arolygiad o leoliadau eraill ar fyr rybudd. Gallai hyn fod o ganlyniad i ymweliad(au) aflwyddiannus.

- 5.9 Bydd arolygwyr bob amser yn ystyried p'un a oes unrhyw bryderon ynglŷn â brygiad o achosion heintus cyn mynd i mewn i leoliad.
- 5.10 Pan ydym wedi gorfod cysylltu â lleoliad ond heb allu siarad â neb, byddwn yn ystyried p'un a yw'r lleoliad yn weithredol.
- 5.11 Dylai pob lleoliad fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i'n hysbysu o unrhyw newidiadau i'w dyddiau a/neu oriau gweithredol.
- 5.12 Pan fo pryderon wedi'u mynegi am leoliad, gallai AGC ddewis arolygu unrhyw leoliad ar unrhyw adeg, waeth beth yw dyddiad yr arolygiad a drefnwyd ganddi.

6 Gwirio bod y lleoliad wedi'i gofrestru'n gywir

- 6.1 Byddwn yn gwirio bod y lleoliad wedi'i gofrestru'n gywir fel rhan o'r gwaith paratoi cyn cynnal arolygiad. Mae hyn yn cynnwys adolygu'r datganiad o ddiben diweddaraf sydd gennym, a'i gymharu â'r manylion cofrestru a gofnodwyd ar ein cronfa ddata, a, lle bo'n briodol, gwirio Tŷ'r Cwmnïau i weld a yw'r wybodaeth yn adlewyrchu ein gwybodaeth ni.
- 6.2 Byddwn yn mynd ar drywydd unrhyw anghysondebau â'r darparwr cyn neu yn ystod yr ymweliad â'r safle. Gall anghysondebau olygu, er enghraifft, newid endid cyfreithiol (**o fasnachwr unigol i gwmni cyfyngedig**), newid perchenogaeth neu newidiadau i'r safle sydd wedi digwydd heb i ni wybod. Gallai absenoldeb darparwr sydd wedi'i gofrestru'n gyfreithiol gael effaith ar y cofrestriad. Bydd anghysondebau yn y cofrestriad yn cael eu rhannu gyda'r tîm cofrestru a gorfodi i fynd ar eu trywydd.

7 Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth

- 7.1 Bob blwyddyn, bydd disgwyl i'r darparwr gynnal y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth, gan gynnwys yr adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal. Mae'r rhain yn ofynnol o dan Reoliad 16 a Rheoliad 17 o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010.
- 7.2 Mae'r dogfennau hyn yn galluogi AGC i asesu sut mae darparwyr yn ystyried eu hunain o ran ansawdd yn erbyn pedair thema allweddol y fframwaith arolygu cyn arolygiad.

- 7.3 Rydym yn disgwyl i ddarparwyr fod yn agored a gonest gyda ni, gan rannu'r holl wybodaeth briodol. Gofynnwn i ddarparwyr gadarnhau bod y wybodaeth y maent yn ei chyflwyno yn gyflawn ac yn fanwl gywir.
- 7.4 Gall methu â chwblhau'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth a'r adolygiad o ansawdd y gofal ar gyfer lleoliad arwain at gamau gorfodi yn cael eu cymryd gennym a bydd yn dylanwadu ar y gradd ddilynol ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad.

8 Egwyddorion arolygu

- 8.1 Caiff yr arolygiad ei lywio gan yr egwyddorion canlynol.

	Diffiniad o'r egwyddorion
Canolbwyntio ar y plentyn	mae arolygwyr yn rhoi plant sy'n defnyddio lleoliadau rheoleiddiedig wrth wraidd eu gwaith, ac yn asesu lleoliadau o ran canlyniadau ar gyfer diogelwch, llesiant a hawliau plant.
Cefnogi gwelliant	mae arolygwyr yn ffurfio barn am leoliadau. Rydym yn argymhell arferion da, nodi arferion gwael, a hyrwyddo gwelliant mewn lleoliadau gofal plant a chwarae.
Bod yn dryloyw	mae arolygwyr yn agored am y wybodaeth y maent wedi'i defnyddio i lywio eu harolygiadau, ac mae adroddiadau yn eglur ac yn hysbysu pobl am yr hyn y gallwn ei ddisgwyl gan leoliadau.
Bod yn deg ac yn ddiduedd	mae arolygwyr yn seilio eu harolygiadau ar dystiolaeth; mae hyn yn cynnwys arsylwadau, siarad â phobl, a'r wybodaeth a ddarllenir gennym. Rydym yn rhoi adborth prydlon i'r darparwr ynglŷn â'r hyn rydym wedi'i ganfod, gan gynnwys meysydd o gryfder a lle mae angen gwelliannau. Rydym yn rhoi'r cyfle iddynt drafod unrhyw bryderon, rhoi gwybodaeth bellach, a chwestiynu unrhyw faterion nad ydynt yn gywir.
Bod yn gadarn	mae arolygwyr yn cymryd camau cadarn ac amserol pan fydd lleoliadau yn darparu gofal gwael neu'n rhoi plant mewn perygl.
Bod yn gymesur	mae arolygwyr yn canolbwyntio ar faterion sy'n cael effaith uniongyrchol ar ddiogelwch, llesiant a hawliau plant. Rydym yn gweithredu ein pwerau gorfodi pan ydym yn gweld bod lleoliadau gofal plant a chwarae yn methu yn y meysydd hyn.
Bod yn gyson	mae arolygwyr yn gweithredu'r un egwyddorion ac yn ymgymryd â'r un dull ar gyfer pob darparwr sy'n destun arolygiad gennym.

9 Atal a rheoli heintiau

- 9.1 Bydd arolygwyr yn ystyried canllawiau AGC ar Egwyddorion Rheoli Heintiau cyn cychwyn yr arolygiad. Efallai y bydd AGC yn cysylltu â'r darparwr am fwy o wybodaeth am y trefniadau yn y lleoliad ar gyfer atal heintiau a thystiolaeth o ymlyniad i ganllawiau Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ar reoli heintiau.

10 Y broses arolygu

- 10.1 Ar ddechrau arolygiad, bydd arolygwyr yn:

- egluro diben yr arolygiad a thrafod rhaglen amlinellol a chynllunio ar gyfer yr arolygiad, gan ystyried yr effaith ar y lleoliad
- gofyn i ddogfennau perthnasol fod ar gael o ddechrau'r arolygiad
- gofyn p'un a oes unrhyw faterion neu risgiau y dylem fod yn ymwybodol ohonynt a gofyn am nodyn briffio cyffredinol ar iechyd a diogelwch
- sicrhau bod gweithdrefnau cytunedig ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw bryderon neu gwynion a allai godi yn ystod yr arolygiad
- sefydlu'r trefniadau ar gyfer bwydo canfyddiadau'r arolygiad yn ôl, gan gynnwys y graddau.

- 10.2 Mae arolygu yn broses o ymholi, casglu, cofnodi a dadansoddi tystiolaeth yn barhaus, gan ddilyn themâu sy'n dod i'r amlwg ac edrych am gysylltiadau.

- 10.3 Mae plant sy'n defnyddio lleoliadau wrth wraidd ein harolygiadau. Er mwyn deall effaith lleoliadau ar eu llesiant, byddwn yn canolbwyntio ar gasglu gwybodaeth am yr hyn sydd o bwys iddyn nhw. Byddwn yn siarad â nhw a'u rheini/gofalwyr am eu profiad o ofal, yn arsylwi'r gofal y maent yn ei dderbyn, ac yn adolygu beth mae'r cofnodion yn ei ddweud wrthym am eu gofal.

- 10.4 Pan fo'n briodol, byddwn yn defnyddio technoleg rithwir i wella ein harchwiliad ffisegol o leoliad. Mae AGC wedi datblygu canllawiau ar gyfer defnyddio technoleg rithwir yn ystod arolygiadau.

11 Arsylwi

- 11.1 Mae SOFI2 (Fframwaith Arsylwi Cryno ar gyfer Arolygu) yn offeryn arolygu y mae arolygwyr yn ei ddefnyddio i ffurfio barn ynglŷn â sut beth yw bywyd ar gyfer plant sy'n defnyddio lleoliadau. Fel rhan o'n gwaith arolygu, rydym yn edrych ar lesiant plant sy'n defnyddio lleoliadau yn ogystal â gwirio bod lleoliadau yn bodloni'r safonau gofynnol cenedlaethol. Rydym yn defnyddio SOFI2 yn bennaf mewn lleoliadau gofal dydd pan nad yw plant sy'n defnyddio lleoliad yn gallu dweud sut beth yw eu gofal a'u triniaeth. Mae'n darparu

arsylwad sydyn er mwyn cofnodi arsylwadau ar gyfer grŵp o unigolion neu ar sail bersonol.

12 Diwylliant sefydliadol

12.1 Mae'n bwysig bod gan bob lleoliad ddiwylliant sefydliadol cadarnhaol.

Gwerthoedd, credoau, rhyngweithiadau ac agweddau'r bobl o fewn y lleoliad gofal plant sy'n ffurfio'r diwylliant sefydliadol. Gall diwylliant cadarnhaol ac ymdeimlad o hunaniaeth a rennir ddylanwadu ar ymddygiadau a chael effaith ar ansawdd y gofal. Mae'r pwyntiau bwled isod yn amlinellu rhai llinellau ymholi y gall arolygwyr eu dilyn mewn arolygiad:

- arweinyddiaeth – byddwn yn siarad â staff a rhanddeiliaid am beth maent yn ei feddwl am yr arweinwyr. A yw arweinwyr yn agored, yn weladwy ac yn hawdd mynd atynt ac a ydynt yn ymrymuso eraill? Byddwn yn ystyried holiaduron a gwblheir ar gyfer adolygiadau o ansawdd y gofal os ydynt ar gael.
- llesiant staff – byddwn yn siarad â staff i weld a ydynt yn teimlo wedi'u cefnogi. A yw cydweithwyr a rheolwyr yn cefnogi ei gilydd yn eu rolau? Er enghraifft, a oes yna drosiant uchel ymhlith y staff?
- yr amgylchedd – byddwn yn ystyried p'un a oes gan staff gyfleusterau ar gyfer eu heiddo, a lle i ymlacio, cymryd egwyl a bwyta ac ati.
- cyfathrebu – byddwn yn ystyried sut mae pobl yn siarad â'i gilydd. A oes yna gyfleoedd ar gyfer cyfathrebu mewn grŵp a chyfathrebu dwy ffordd? A yw'r darparwr yn agored i adborth adeiladol?
- ystwythder – a yw'r darparwr yn cymryd camau prydlon i wneud newidiadau/gwelliannau? A yw'n mynd i'r afael â phryderon a godir gan staff a chwynion?
- gweledigaeth – a oes yna weledigaeth sefydliadol glir sy'n creu synnwyr o bwrpas? A yw rhanddeiliaid yn ymwybodol o weledigaeth/nodau'r lleoliad? Sut mae pobl yn gweithredu'r gwerthoedd sefydliadol?

13 Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg

13.1 Nid yw llawer o bobl sy'n derbyn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn teimlo'n ddigon hyderus i ofyn am wasanaethau drwy'r Gymraeg. Mae darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' (sydd yn mynd ati i ofyn dewis iaith pobl), a chynnig gwasanaethau drwy'r Gymraeg fel yr amlinellir yn y ddogfen *Mwy na Geiriau ... (fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg)*, yn hyrwyddo newid mewn diwylliant. Dylai darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' fod wrth wraidd gofal a chyfrifoldeb y darparwr ydyw.

- Diffiniad o leoliad sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol'
'Mae'r gwasanaeth yn darparu "Cynnig Rhagweithiol" o ran y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r lleoliad, neu a all ei ddefnyddio.'
- Diffiniad o leoliad sy'n gweithio at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol'
'Mae'r lleoliad yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant.'
- Diffiniad o leoliad nad yw'n darparu 'Cynnig Rhagweithiol'
'Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu "Cynnig Rhagweithiol" ar gyfer y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl/plant sy'n defnyddio'r lleoliad neu'n bwriadu gwneud hynny.'

- 13.2 Bydd yr arolygydd yn cofnodi'r canfyddiadau yn y thema/themâu sydd fwyaf priodol yn yr adroddiad arolygu, i ddangos eu bod wedi cyrraedd eu penderfyniad.
- 13.3 Dylai'r arolygydd gyfeirio'r darparwr at ddogfen 'Mwy na Geiriau ...' Llywodraeth Cymru, sef y fframwaith strategol olynol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn ieuchyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol.
- 13.4 Lle mae tystiolaeth o ganlyniadau gwael neu risgiau dianghenraid ar gyfer pobl o ganlyniad i ddifffyg 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg, bydd yr arolygydd yn cofnodi hyn yn yr adroddiad ac yn ystyried p'un a yw'r lleoliad yn peidio â chydymffurfio â'r rheoliadau.

14 Sgoriau hylendid bwyd

- 14.1 Bydd ein holl arolygiadau llawn yn ystyried, pan fo hynny'n briodol, y sgôr hylendid bwyd a ddyfarnwyd i'r darparwr gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Yn ogystal, bydd yr arolygydd yn ystyried p'un a yw darparwr yn dilyn canllawiau a safonau Llywodraeth Cymru ar fwyd a maethiad ar gyfer lleoliadau gofal plant. Mae unrhyw leoliad sy'n cael sgôr o **1 neu lai** yn debygol o gael arolygiad gan AGC.

15 Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

- 15.1 Efallai y bydd adegau pan fydd angen i AGC gynghori lleoliad i wneud atgyfeiriad at yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o dan y Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR).

16 Sicrhau bod ein tystiolaeth yn gadarn

16.1 Mae AGC yn defnyddio 'triongiant' i sicrhau bod ein tystiolaeth yn gadarn. Bydd yr arolygydd yn ystyried ffynonellau amrywiol o dystiolaeth yn ystod yr arolygiad. Bydd y dystiolaeth yn helpu'r arolygydd i ddeall mwy ynglŷn ag ansawdd a diogelwch lleoliadau ar gyfer plant. Enghraifft o driongiant yw edrych ar fwydlenni, siarad â staff a phlant am ansawdd y prydau, ac arsylwi amser cinio. Mae'r arolygydd yn gallu ystyried mathau gwahanol o dystiolaeth, i'w helpu i ffurfio barn ynglŷn ag ansawdd y prydau a ddarperir.

17 Egwyddorion sicrhau gwelliant a gorfodi

17.1 Rydym yn defnyddio ein pwerau gwelliant a gorfodi i hyrwyddo ein hamcan craidd, sef gwella ansawdd a diogelwch lleoliadau ar gyfer llesiant pobl Cymru. Mae'r egwyddorion canlynol yn llywio ein penderfyniadau ynghylch gorfodi:

- **cyfrifoldeb:** Mae darparwyr gwasanaethau yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn bodloni gofynion rheoliadol. Rydym yn disgwyl i ddarparwyr gywiro methiannau a gwella gwasanaethau
- **cymesuredd:** Rydym yn cymryd camau sy'n gymesur â'r amgylchiadau, y canlyniadau a'r risgiau ar gyfer unigolion sy'n cael mynediad at y gwasanaeth, a gallu a galluedd y darparwr i ymateb. Bydd darparwyr sy'n methu cydymffurfio â rheoliadau'n barhaus yn wynebu camau gorfodi wedi'u huwchgfyfeirio, gan gynnwys dileu eu cofrestriad o bosib
- **effeithlon ac effeithiol:** Rydym yn agored ac yn dryloyw ynglŷn â'n dull gorfodi ac ynglŷn â sut rydym yn defnyddio ein pwerau gorfodi. Mae unrhyw gamau rydym yn eu cymryd yn eglur, cyson, amserol, teg a chymesur
- **rhannu gwybodaeth:** Rydym yn gweithio gyda chomisiynwyr, rheoleiddwyr, ac asiantaethau a chyrff proffesiynol perthnasol eraill i rannu gwybodaeth am wasanaeth er mwyn defnyddio'r wybodaeth sydd ar gael yn effeithiol. Wrth brosesu a rhannu gwybodaeth, rydym yn glynu at bob gofyniad deddfwriaethol perthnasol
- **cymryd camau cydgysylltiedig:** Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod unrhyw gamau gorfodi yn gydgysylltiedig. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fo pryderon diogelu neu faterion iechyd a diogelwch a lywodraethir gan reoleiddwyr eraill
- **cadarnhau hawliau unigolion:** Rydym yn ymrwymedig i hyrwyddo a chadarnhau hawliau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth. Lle mae gofal yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi.

17.2 Mae sicrhau gwelliant a gorfodi yn rhan graidd o'n gwaith fel rheoleiddiwr. Rydym yn targedu meysydd ar gyfer gwelliant ac yn cymryd camau gorfodi sy'n lleihau'r risg i bobl sy'n defnyddio lleoliadau ac sy'n dal darparwyr i gyfrif am unrhyw fethiannau gan y lleoliad.

- 17.3 Pan fo'n briodol gwneud hynny, rydym yn gweithredu dull graddol i sicrhau gwelliannau, yn unol â'n gweithdrefnau gorfodi. Rydym yn cymryd camau gweithredu i sicrhau gwelliant pan fo gennym bryderon neu ein bod wedi nodi diffyg cydymffurfio. Fodd bynnag, lle rydym yn nodi achosion o ddiffyg cydymffurfio difrifol, niferus neu gyson, gallwn ddefnyddio ein pwerau i gyfyngu ar y ddarpariaeth y gall darparwr ei chyflwyno neu, yn y pen draw, atal y darparwr rhag gweithredu yn gyfan gwbl.

18 Adborth ac adrodd ar arolygiad

- 18.1 Ar ddiwedd ymweliad â safle, byddwn yn darparu adborth **cychwynnol** i'r rheini â gofal o'r lleoliad ar y diwrnod, neu'n trefnu cyfathrebu â'r unigolyn cofrestredig/cyfrifol ar amser cyfleus i bawb pan fydd hynny'n briodol. Mae'n bosibl y bydd angen i ni egluro bod angen i ni gwblhau dadansoddiad priodol o'r wybodaeth rydym wedi'i chasglu ac ein bod yn bosib yn aros am fwy o wybodaeth cyn cyrraedd unrhyw gasgliadau.
- 18.2 Byddwn yn gwneud nodyn o'r adborth ond ni fyddwn yn gadael unrhyw adroddiad ysgrifenedig nac yn gofyn i neb lofnodi ein hadroddiad o'r adborth. Mae rhoi adborth yn gyfle pwysig i wirio a phrofi'r dystiolaeth y gallem fod yn dibynnu arni yn yr adroddiad. Dylid gweithredu egwyddor o ddim byd "annisgwyl". Byddwn yn trafod unrhyw bryderon neu feysydd posibl o ddiffyg cydymffurfio ar ddiwedd yr arolygiad.
- 18.3 Byddwn yn gofyn am ac yn cofnodi barn yr unigolyn â gofal / y darparwyr ar degwch yr arolygiad a'r ffordd y cafodd ei gynnal ar ddiwedd yr adborth, yn ogystal â darparu ffurflen adborth ar gyfer ei sylwadau ar yr arolygiad.
- 18.4 Pan nad yw lleoliad wedi bodloni gofynion y rheoliadau ac rydym yn bwriadu rhoi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth neu gymryd camau gorfodi eraill, byddwn yn hysbysu'r darparwr.
- 18.5 Rydym yn ymdrechu i sicrhau bod ein hadroddiadau arolygu yn deg a bod ein canfyddiadau yn seiliedig ar driongliant y dystiolaeth rydym yn ei chasglu. Felly, er budd tegwch a thryloywder, rydym yn derbyn hawl darparwyr i ymateb i'n hadroddiadau a gwneud sylwadau ar ein canfyddiadau. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i ni gywiro unrhyw wallau ac ystyried unrhyw wybodaeth ychwanegol cyn i adroddiad arolygu gael ei gyhoeddi.

19 Yr adroddiad arolygu

- 19.1 Mae profiadau plant mewn lleoliadau wrth wraidd ein hadroddiadau, gan gynnwys yr effaith ar eu llesiant. Er bod darparwyr a gweithwyr proffesiynol yn darllen ein hadroddiadau, **rydym yn ysgrifennu ein hadroddiadau ar gyfer y cyhoedd**. Mae hyn yn galluogi'r rhai sy'n defnyddio a dewis lleoliadau i ddeall ansawdd y gofal plant a chwarae a ddarperir.

- 19.2 Rydym yn seilio'r adroddiad arolygu ar y dystiolaeth a gesglir cyn, yn ystod ac yn dilyn yr ymweliad arolygu. Byddwn yn ystyried amrywiaeth o dystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau yn yr adroddiad. Bydd hyn yn ystyriaeth o'r hyn a ddywedwyd, yr hyn a welwyd a'r hyn a ddarllenwyd i lywio ein canfyddiadau, ein barn gyffredinol a'r graddau a ddyfernir.
- 19.3 Ein nod yw drafftio, gorffen a chyhoeddi adroddiadau arolygu o fewn **50 diwrnod gwaith** ar ôl cwblhau'r arolygiad. Fodd bynnag, mewn nifer fach o achosion, gellir ymestyn yr amserlen hon o ganlyniad i faterion megis argaeledd yr unigolyn cofrestredig i ymateb i'r adroddiad arolygu neu lle mae'r darparwr yn herio'r adroddiad arolygu.
- 19.4 Mae'r arolygydd yn ysgrifennu'r adroddiad ac, ar ôl sicrhau ansawdd, ceir ei gyhoeddi. Disgwylir i bob adroddiad arolygu gael ei ysgrifennu a'i gyflwyno i'r unigolyn cofrestredig, yr unigolyn cyfrifol neu unigolyn perthnasol o fewn **25 diwrnod gwaith** i'r gweithgarwch arolygu diwethaf. Gallai'r 'gweithgarwch arolygu diwethaf' fod yr ymweliad arolygu ei hun, neu alwadau ffôn dilynol i berthnasau neu weithwyr proffesiynol, neu'n adolygu holiaduron.
- 19.5 Caiff yr adroddiad arolygu ei anfon at yr unigolyn cofrestredig, yr unigolyn cyfrifol neu unigolyn perthnasol er mwyn iddynt ei ystyried. Bydd ganddynt ddeg diwrnod gwaith i ymateb i'r adroddiad a chyflwyno sylwadau.
- 19.6 Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir estyn yr amserlen oherwydd materion megis a yw'r unigolyn cofrestredig, yr unigolyn cyfrifol neu unigolyn perthnasol ar gael i ymateb i'r adroddiad arolygu. Bydd hyn yn destun cytundeb gan yr arolygydd perthnasol, yn dilyn cais gan yr unigolyn cofrestredig, yr unigolyn cyfrifol neu unigolyn perthnasol.
- 19.7 Pan fo'r unigolyn cofrestredig, yr unigolyn cyfrifol neu unigolyn perthnasol yn gwneud sylwadau ynglŷn â'n hadroddiad neu'n ei herio drwy'r polisi hwn, gallai hyn achosi oedi o ran ei gyhoeddi (gan 15 diwrnod gwaith i gychwyn a deg diwrnod gwaith ychwanegol o bosibl os ceir unrhyw heriau pellach).
- 19.8 Pan na wneir ymateb neu pan fo'r unigolyn cofrestredig, yr unigolyn cyfrifol neu unigolyn perthnasol yn ymateb nad ydynt yn dymuno rhoi sylwadau, caiff yr adroddiad ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol yn dilyn yr arolygiad.
- 19.9 Ar ôl derbyn yr adroddiad arolygu, bydd yr unigolyn cofrestredig, yr unigolyn cyfrifol neu unigolyn perthnasol yn cael y cyfle i gwestiynu ein hadroddiad a chyflwyno sylwadau. Dylai sylwadau ymwneud yn benodol â chywirdeb ffeithiol (megis gwallau argraffyddol, sillafu neu rifiadol), cyflawnrwydd y dystiolaeth, neu degwch/cymesuredd y canfyddiadau.
- 19.10 Dylai unrhyw sylwadau neu heriau bob amser nodi'r rhan/rhannau o'r adroddiad sy'n cael ei/eu herio a rhoi manylion a thystiolaeth ategol dros y rheswm. Bydd hyn yn galluogi arolygwyr i ystyried y wybodaeth yn llawn a rhoi ymateb eglur.

- 19.11 Nid yw'r polisi hwn yn galluogi'r unigolyn cofrestredig, yr unigolyn cyfrifol neu unigolyn perthnasol i herio'r dyfarniadau na'r graddau a roddwyd gan yr arolygydd. Fodd bynnag, pan fo her lwyddiannus, mae'n bosibl y bydd angen adolygu'r farn neu radd.

20 Diogelu

- 20.1 Mae diogelu plant ac oedolion yn gyfrifoldeb pawb. Mae gan bob un a sefydliad sy'n dod i gysylltiad â phlant neu oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant gyfrifoldeb i helpu i'w cadw yn ddiogel rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae diogelu effeithiol yn seiliedig ar gyfathrebu da. Os oes gan **unrhyw unigolyn** wybodaeth, pryderon neu amheuan fod plentyn neu oedolyn yn dioddef, wedi dioddef neu'n debygol o fod mewn perygl o gamdriniaeth, mae ganddo gyfrifoldeb i sicrhau bod y pryderon yn cael eu hadrodd i'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu.
- 20.2 Mae'n rhan o'n dyletswyddau statudol i amddiffyn a hyrwyddo ieuchyd, diogelwch a llesiant plant sy'n defnyddio gwasanaethau. Byddwn yn gwneud hyn drwy sicrhau bod darparwyr a'r bobl sy'n gweithio iddynt yn creu, gweithredu a chynnal amgylcheddau, systemau a phrosesau lle mae risgiau i ieuchyd, diogelwch a llesiant plant yn cael eu hatal neu eu hadnabod yn effeithiol ac y gweithredir arnynt yn brydlon.
- 20.3 Byddwn yn ystyried pa mor dda mae pobl yn rhedeg gwasanaethau a ph'un a yw rheolwyr wedi creu diwylliant o wyladwriaeth lle mae llesiant plant yn cael ei hyrwyddo a bod camau diogelu amserol a phriodol yn cael eu cymryd lle gallai plant fod yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed sylweddol.
- 20.4 Lle mae pryderon diogelu yn codi yn ystod arolygiad, byddwn yn cymryd camau i wneud atgyfeiriad at yr awdurdod lleol neu fodloni ein hunain fod atgyfeiriadau priodol wedi'u gwneud. Gallai pryderon penodol gynnwys oedi neu esgeulustod wrth drosglwyddo pryderon am blentyn sydd mewn perygl o niwed sylweddol neu sy'n dioddef niwed sylweddol i'r asiantaethau perthnasol. Nid rôl arolygydd yw ymchwilio i bryder amddiffyn plant neu honiad yn erbyn aelod o staff.

21 Cyfrifoldebau'r darparwr ar gyfer diogelu

- 21.1 O fewn y fframweithiau rheoliadol, mae cyfrifoldebau darparwyr gwasanaethau mewn perthynas â diogelu yn eglur o ran gwneud y canlynol:
- rhoi systemau, prosesau, polisiâu, gweithdrefnau a hyfforddiant ar waith, a'u gweithredu'n effeithiol, i helpu i sicrhau bod plant sy'n defnyddio gwasanaethau yn cael eu diogelu rhag y risg o gamdriniaeth ac esgeulustod neu gamdriniaeth ac esgeulustod gwirioneddol

- cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol a dderbynnir ar gymwyseddau staff yn unol â'u rôl
- bod yn ymwybodol o Ddeddf Galluedd Meddwl 2005 ac ystyr cydsyniad
- darparu lefelau ac ansawdd gwasanaeth sy'n bodloni holl ofynion y fframwaith rheoleiddio diogelu perthnasol ar gyfer y gwasanaeth y maent yn ei ddarparu
- unioni unrhyw ddiffygion a geir mewn arferion diogelu yn eu gwasanaeth i helpu i leihau risgiau i bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth
- dysgu a chymhwyso dysgu o unrhyw ddigwyddiad diogelu i helpu i gryfhau diogelu yn y dyfodol
- atgyfeirio achosion o gamdriniaeth neu gamdriniaeth bosibl at dimau diogelu awdurdodau lleol
- hysbysu AGC o ddigwyddiadau diogelu yn unol â'r rheoliadau drwy gwblhau hysbysiad statudol ar yr adeg y nodwyd y gamdriniaeth
- cydweithredu ag ymchwiliadau diogelu

21.2 Byddwn bob tro yn ystyried:

- polisïau a gweithdrefnau amddiffyn plant y lleoliad
- amgylchiadau lle caiff aelod o staff ei atal dros dro a bod ymchwiliad diogelu ar waith ar hyn o bryd
- methiant i ddilyn gofynion statudol neu weithdrefnau cytunedig yn lleol ar gyfer delio â honiadau yn erbyn staff
- methiant i lynu at ddyletswydd gyfreithiol i atgyfeirio aelod o staff sydd wedi niweidio plentyn, neu sy'n peri risg o niwed i blentyn, i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

21.3 Bydd y canllawiau statudol canlynol hefyd yn cael eu hystyried:

- Canllawiau ar y **ddyletswydd Prevent** ar gyfer Cymru a Lloegr: canllawiau ar gyfer awdurdodau penodedig yng Nghymru a Lloegr ar ddyletswydd ysgolion a darparwyr eraill o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 i fod ag ystyriaeth briodol o'r angen i atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth.

22 Rhestr o ddogfennau sy'n debygol o fod yn ofynnol at ddibenion arolygu

22.1 Cofnodion y byddwn yn eu hystyried o bosib:

- cofnodion unigol plant
- datganiad o ddiben
- rhestr staff (ymarferwyr), gan gynnwys manylion cymwysterau a gwybodaeth am oruchwyliaeth, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus staff a gweithdrefnau a chofnodion recriwtio staff
- cofnodion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac unrhyw ddogfennau eraill sy'n crynhoi'r gwiriadau a'r trefniadau fetio a chyflogaeth ar gyfer yr holl staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn y lleoliad (byddem ond yn disgwyl i chi adolygu'r dogfennau ar gyfer staff neu wirfoddolwyr sydd wedi'u cyflogi ers yr arolygiad diwethaf)
- mewn lleoliad gwarchod plant, cofnodion o wiriadau ar gyfer pobl dros 16 oed sy'n byw neu'n gweithio ar y safle neu ar gyfer y rhai sydd â chyswllt rheolaidd â phlant sy'n derbyn gofal
- asesiadau risg
- tystysgrifau diogelwch
- dogfennau polisi a gweithdrefnau
- samplau o waith cynllunio gweithgareddau
- enghreifftiau o waith plant a thystiolaeth o gynnydd unigolion
- gwybodaeth am asesiadau, yn enwedig asesiadau a gynhelir pan fo plant yn dod i mewn i'r lleoliad neu'n ei adael mewn perthynas â'u cynnydd
- cofrestrau o bresenoldeb plant, staff a gwirfoddolwyr
- cofnodion damweiniau/digwyddiadau/meddyginiaeth
- rhestr o unrhyw atgyfeiriadau diogelu a wnaed i'r awdurdod lleol
- cofnodion unrhyw gwynion
- gwybodaeth am sut y cedwir rhieni/gofalwyr yn hysbys am gynnydd eu plant
- unrhyw wybodaeth sy'n dangos sut mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o gysylltiadau â'r gymuned
- gwybodaeth am bartneriaethau
- y cyfrifon diweddaraf a archwiliwyd, pan fo pryderon am gyllid er enghraifft
- unrhyw adroddiadau ar werthusiadau allanol o'r lleoliad, e.e. iechyd yr amgylchedd
- unrhyw wybodaeth arall y mae'r lleoliad yn dymuno ei hystyried

23 Graddau

- 23.1 Nid ydym yn dyfarnu gradd gyffredinol yn ystod arolygiad llawn ar gyfer y lleoliad. Rydym yn dyfarnu gradd yn erbyn pob un o'r pedair thema arolygu. Bydd graddfa pedwar pwynt yn cael ei defnyddio ar gyfer pob thema.
- 23.2 Ein dyletswydd reoliadol a'r angen i gynnig sicrwydd i'r cyhoedd yw'r cam cyntaf yn y broses o gyflawni ein dyletswydd reoliadol. Ar gyfer pob thema, byddwn yn ystyried a yw'r lleoliad yn darparu gofal diogel a rhesymol yn unol â'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol.
- 23.3 Os dyma yw'r achos, yna mae'r lleoliad wedi pasio'r trothwy a gellir ei dyfarnu fel o leiaf **digonol**.
- 23.4 Os nad hyn yw'r achos, ac ystyrir bod y lleoliad yn darparu gofal anniogel sy'n rhoi plant mewn perygl neu sydd â chanlyniadau gwael, yna mae'n rhaid dyfarnu'r thema fel **gwael**. Bydd hyn yn arwain at AGC yn dyroddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth.
- 23.5 Yr ail gam yw cydnabod ansawdd. Mae wedi nodi'n glir yn ein canllawiau graddau sut olwg sydd ar radd "da" ar draws y themâu a meysydd i'w harolygu. Unwaith mae lleoliad wedi pasio'r trothwy "digonol", byddwn yn ystyried p'un a yw'r lleoliad yn perfformio ar lefel y gellid ei hystyried yn dda. Er mwyn cael gradd "da", mae'n rhaid i leoliad fod â chyfran uchel o feysydd lle mae yna gryfderau, h.y. mae'r lleoliad yn perfformio ar lefel sy'n cyfateb i'n disgrifyddion ar gyfer sut olwg allai fod ar radd "da".
- 23.6 Mae'r tabl isod yn nodi'r graddau

Rhagorol:	Dyma leoliadau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r lleoliadau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant.
Da:	Dyma leoliadau sydd â chryfderau ac sydd heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol.
Digonol:	Dyma leoliadau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant.
Gwael:	Dyma leoliadau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae lleoliadau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyroddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth yn unol â'n polisi sicrhau gwelliant a gorfodi

23.7 Mae'r tabl isod yn nodi'r canrannau sy'n ofynnol ar gyfer canlyniadau cadarnhaol. Gall arolygwyr ddefnyddio'r grid canlynol i fynegi'r raddfa y cyflawnir canlyniadau cadarnhaol ar gyfer plant.

Bron pob un	gydag ychydig iawn o eithriadau
Y rhan fwyaf	90% neu fwy
Llawer	70% neu fwy
Mwyafrif	dros 60%
Hanner	50%
Tua hanner	agos at 50%
Lleiafrif	o dan 40%
Ychydig	o dan 20%
Ychydig iawn	llai na 10%

Sgoriau

Llesiant

I ba raddau mae gan blant lais? Bydd arolygwyr yn gwerthuso p'un a yw plant: yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau; yn cael eu clywed a bod pob cais ganddynt i gyfathrebu yn cael ei werthfawrogi; yn cael eu hannog i siarad a mynegi eu hunain; yn mynegi eu barn ac yn gwybod y gwrandewir ar eu syniadau; yn cyfrannu at syniadau ar gyfer themâu a phynciau.

I ba raddau mae plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac wedi'u gwerthfawrogi? Bydd arolygwyr yn gwerthuso p'un a yw plant: wedi ymgartrefu ac yn ymdopi ag ymwahaniad â'u rhieni; yn ffurfio cysylltiadau emosiynol cadarnhaol ac yn teimlo'n ddiogel, yn fodlon, yn gyfforddus ac wedi ymlacio; yn teimlo eu bod wedi'u gwerthfawrogi a bod eu hawliau wedi'u parchu; â theimladau o hoffter tuag at ymarferwyr/gofalwyr sy'n eu hadnabod yn dda ac yn rhoi gofal cyson iddynt, sy'n meithrin hyder a hunan-barch cadarnhaol; yn ffurfio cyfeillgarwch; yn gwybod pwy i siarad â nhw os ydynt yn anhapus neu'n poeni am rywbeth; yn hyderus y bydd eu teimladau, hoffterau, casbethau a phryderon yn cael eu hystyried. Mae plant wedi ymlacio, yn sicr o'u hunain, ac nid ydynt yn ddibynnol ar gyfarwyddyd gan oedolion.

Pa mor dda mae plant yn rhyngweithio? Bydd arolygwyr yn gwerthuso p'un a yw plant: yn wydn ac yn gallu ymdopi. Mae plant ieuengach yn dechrau deall eu teimladau ac yn dod yn sensitif i eraill. Mae plant yn dysgu sut i reoli eu hymddygiad, cydweithredu, cymryd eu tro a rhannu, tra bo plant ieuengach yn dechrau datblygu synnwyr o beth sy'n iawn a beth sydd ddim. Mae plant hŷn yn hunanddisgybliedig ac yn gosod a chydymffurfio â rheolau ar gyfer ymddygiad sy'n dderbyniol yn gymdeithasol.

I ba raddau mae plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu? Bydd arolygwyr yn gwerthuso p'un a yw plant: yn ddysgwyr gweithredol a chwilfrydig; yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n seiliedig ar chwarae, a'u bod â diddordeb ac wedi'u cyffroi; yn dyfalbarhau am gyfnod priodol o amser i gwblhau gweithgaredd; yn cynnal diddordeb mewn gweithgareddau; yn ennill ymdeimlad o gyflawniad o'r hyn y maent yn ei wneud; yn mwynhau chwarae'n rhydd a gweithgareddau hamdden.

Bydd arolygwyr yn cynnal arsylwad SOFI2 i gael darlun o sut brofiad mae plant yn ei gael yn y lleoliad.

Rhagorol	Da	Digonol	Gwael
Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus iawn gan yr ystyrir eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion yn llawn	Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus gan yr ystyrir eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion	Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus yn aml gan yr ystyrir eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion yn gyffredinol	Nid yw'r plant yn gyfathrebwyr hyderus iawn gan mai prin yr ystyrir eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion
Mae gan y plant gyfleoedd cyffrous i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn sy'n cael effaith arnynt	Mae gan y plant gyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn sy'n cael effaith arnynt	Mae gan y plant rai cyfleoedd i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn sy'n cael effaith arnynt	Prin yw'r cyfleoedd i'r plant wneud dewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn sy'n cael effaith arnynt
Caiff barn a diddordebau'r plant eu gwerthfawrogi'n fawr, y gweithredir arnynt, a chânt eu hadolygu'n barhaus	Caiff barn a diddordebau'r plant eu gwerthfawrogi ac y gweithredir arnynt	Mae barn a diddordebau'r plant yn cael eu hystyried	Prin y caiff barn a diddordebau'r plant eu hystyried
Mae'r plant yn ymdopi yn eithriadol o dda gydag ymwahaniad gan fod pontio dyddiol effeithlon yn cydnabod anghenion unigol yn llawn ac yn eu cefnogi ac yn cael ei weithredu'n effeithiol	Mae'r plant yn ymdopi yn dda ag ymwahaniad gan fod pontio dyddiol effeithlon yn cydnabod ac yn cefnogi anghenion unigol	Mae'r plant yn ymdopi ag ymwahaniad gan fod pontio dyddiol priodol yn cydnabod ac yn cefnogi anghenion unigol yn gyffredinol	Mae'r plant yn gweld ymwahaniad yn anodd gan fod y pontio dyddiol yn anhrefnus a bod diffyg cefnogaeth ar eu cyfer

Mae'r plant wrth eu boddau ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad. Mae ganddynt ymdeimlad cryf ac amlwg o berthyn, gan ffurfio cydberthnasau cryf, ac maent yn gyfarwydd iawn â threfniadau arferol	Mae plant yn fywiog ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad. Mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn, gan ffurfio cydberthnasau, ac maent yn gyfarwydd â threfniadau arferol	Mae'r plant yn fodlon ac yn mynegi mwynhad. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn, yn dechrau ffurfio cyfeillgarwch, ac yn dod yn gyfarwydd â threfniadau arferol	Mae'r plant yn edrych yn anhapus ac yn ymddangos yn ansicr. Mae ganddynt ddiffyg ymdeimlad o berthyn, ychydig o'r plant sy'n ffurfio cydberthnasau newydd, ac nid ydynt yn gyfarwydd â threfniadau arferol
Caiff teimladau, hoffterau, casbethau ac anghenion y plant eu cydnabod a'u gwerthfawrogi'n fawr gan fod ganddynt deimladau cryf iawn o hoffter/ymlyniad	Caiff teimladau, hoffterau, casbethau ac anghenion y plant eu cydnabod gan fod ganddynt deimladau da o hoffter/ymlyniad	Caiff teimladau, hoffterau, casbethau ac anghenion y plant eu cydnabod yn gyffredinol gan eu bod yn dechrau ffurfio teimladau o hoffter/ymlyniad	Nid yw teimladau, hoffterau, casbethau ac anghenion y plant yn cael eu nodi neu eu cydnabod bob amser
Mae rhyngweithiadau rhwng plant ac oedolion yn ysgogol yn gyson ac mae plant yn cydweithredu'n frwd ac yn teimlo wedi'u hysbrydoli a'u cymell	Mae rhyngweithiadau rhwng y plant ac oedolion yn dda yn gyson ac mae'r plant yn cydweithredu yn dda ac yn ymgysylltu a mynegi diddordeb yn weithredol	Mae rhyngweithiadau rhwng y plant a'r oedolion yn gadarnhaol, mae rhai plant yn cydweithredu, ac maent yn ymgysylltu a mynegi diddordeb yn gyffredinol	Mae rhyngweithiadau rhwng y plant a'r oedolion yn negyddol, nid yw'r plant yn cydweithredu, nid oes ganddynt ddiddordeb, ac maent yn drafferthus
Mae'r plant yn mynegi empathi clir ac maent yn sensitif iawn i anghenion eraill	Mae'r plant yn mynegi empathi ac maent yn sensitif i anghenion eraill	Mae'r plant yn dechrau dangos empathi ac yn dod yn sensitif i anghenion eraill	Mae gan y plant ddiffyg empathi ac nid ydynt yn sensitif i anghenion eraill

Mae plant yn ymgysylltu'n llawn ac yn dangos parch at eiddo a phobl yn gyson. Maent yn cymryd rhan weithredol wrth benderfynu a dilyn y rheolau sy'n cael effaith ar eraill	Mae plant yn ymgysylltu ac yn dangos parch at eiddo a phobl. Maent yn cymryd rhan wrth benderfynu a dilyn y rheolau sy'n cael effaith ar eraill	Mae plant yn ymgysylltu'n gyffredinol ac yn dangos parch at eiddo a phobl. Maent yn dilyn y rheolau sy'n cael effaith ar eraill	Mae'r plant wedi ymddieithrio ac yn dangos diffyg parch at eiddo a phobl. Nid ydynt yn dilyn y rheolau sy'n cael effaith ar eraill
Mae'r plant yn gryf eu cymhelliad, yn llawn bywyd, ac yn ymgysylltu'n llawn â'u chwarae a'u dysgu. Maent yn awyddus iawn i fwynhau cyfleoedd diddorol ac ysgogol o dan do ac yn yr awyr agored, a gallant ddewis ymlacio a chael adegau distaw	Mae'r plant yn frwdfrydig ac mae ganddynt ddiddordeb yn eu chwarae a'u dysgu. Maent yn mwynhau ystod dda o gyfleoedd diddorol o dan do ac yn yr awyr agored a gallant ddewis ymlacio a chael adegau distaw	Mae'r plant yn ymgysylltu â'u chwarae a'u dysgu. Maent yn mwynhau detholiad rhesymol o gyfleoedd priodol o dan do ac yn yr awyr agored a gallant hefyd ymlacio a chael adegau distaw	Nid oes gan y plant ddiddordeb yn eu chwarae a'u dysgu neu nid ydynt yn ymgysylltu â hwy Nid ydynt yn cael cynnig cyfleoedd priodol ac ysgogol dan do neu yn yr awyr agored ac ni allant ddewis ymlacio neu gael adegau distaw
Mae gan y plant ryddid sylweddol i archwilio eu hamgylchedd dan do ac yn yr awyr agored yn ddiogel	Mae gan y plant ryddid i archwilio eu hamgylchedd dan do ac yn yr awyr agored yn ddiogel	Mae gan y plant ryddid weithiau i archwilio eu hamgylchedd dan do ac yn yr awyr agored yn ddiogel	Nid oes gan y plant ryddid i archwilio eu hamgylchedd dan do ac yn yr awyr agored yn ddiogel
1.1 Mae'r plant yn llawn cymhelliad i gychwyn eu gweithgareddau chwarae eu hunain, ac i ddylanwadu ar eu tasgau a gweithgareddau, gan mai gweithgareddau dan arweiniad plant sydd fwyaf cyffredin	Mae gan y plant sawl cyfle i gychwyn eu gweithgareddau chwarae eu hunain, ac i ddylanwadu ar eu tasgau a gweithgareddau, gan fod cydbwysedd da o weithgareddau dan arweiniad plant a dan arweiniad oedolion	Mae'r plant weithiau yn cael cychwyn eu gweithgareddau chwarae eu hunain, a dylanwadu ar eu tasgau a gweithgareddau, gan eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dan arweiniad plant ac arweiniad oedolion	Prin iawn y caiff y plant gychwyn eu chwarae eu hunain a dylanwadu ar eu tasgau a gweithgareddau gan mai gweithgareddau dan arweiniad oedolion sydd fwyaf cyffredin

Mae'r plant yn dilyn eu greddfau, syniadau a diddordebau eu hunain yn gyson	Mae gan y plant sawl cyfle i ddilyn eu greddfau, syniadau a diddordebau eu hunain	Mae'r plant weithiau yn cael dilyn eu greddfau, syniadau a diddordebau eu hunain	Ni chaiff y plant gefnogaeth i ddilyn eu greddfau, syniadau a diddordebau eu hunain
Mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n achosi teimlad gwych o gyflawni rhywbeth a hunan-barch uchel. Maent yn frwdfrydig i ddangos neu siarad am yr hyn y maent wedi bod yn ei wneud	Mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, gan arwain at deimlad da o gyflawni rhywbeth a hunan-barch uchel. Maent yn awyddus i ddangos neu siarad am yr hyn y maent wedi bod yn ei wneud	Mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n achosi teimlad rhesymol o gyflawni rhywbeth a hunan-barch. Maent yn fodlon dangos neu siarad am yr hyn y maent wedi bod yn ei wneud	Nid yw'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, gan arwain at ddiffyg ymdeimlad o gyflawni rhywbeth a hunan-barch. Ychydig o'r plant sy'n frwdfrydig i ddangos neu siarad am yr hyn y maent wedi bod yn ei wneud
Mae'r plant yn cael profiad o gyfleoedd arloesol sy'n briodol o ran oed / yn ddatblygiadol ac sy'n hyrwyddo eu datblygiad cyflawn yn llawn ac yn eu galluogi i ddilyn eu diddordebau eu hunain yn hyderus ac mewn modd brwdfrydig	Mae'r plant yn cael profiad o gyfleoedd diddorol sy'n briodol o ran oed / yn ddatblygiadol ac sy'n hyrwyddo eu datblygiad cyflawn ac yn eu galluogi i ddilyn eu diddordebau eu hunain yn hyderus	Mae'r plant yn cael profiad o amryw o gyfleoedd sy'n briodol o ran oed / yn ddatblygiadol ac sy'n hyrwyddo eu datblygiad cyflawn ac yn eu galluogi i ddilyn eu diddordebau eu hunain	Nid yw'r plant yn cael profiad o ddigon o gyfleoedd sy'n briodol o ran oed / yn ddatblygiadol ac sy'n hyrwyddo eu datblygiad cyflawn ac yn eu galluogi i ddilyn eu diddordebau eu hunain

Mae gan y plant gyfleoedd rhagorol i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, gan eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus ac i ddatrys problemau yn effeithiol, datblygu'n greadigol, arbrofi, a bod yn llawn dychymyg	Mae gan y plant gyfleoedd da i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, gan eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus ac i ddatrys problemau yn dda, datblygu'n greadigol, arbrofi, a bod yn llawn dychymyg	Mae gan y plant rai cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, gan eu galluogi i wneud rhai pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus ac i ddatrys problemau, datblygu'n greadigol, arbrofi, a bod yn llawn dychymyg	Cyfleoedd cyfyngedig sydd gan y plant i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth ac ni chaniateir iddynt wneud pethau drostynt eu hunain neu ddatrys problemau, datblygu'n greadigol, arbrofi, a bod yn llawn dychymyg
Wedi'i gymryd o'r Raddfa Cyddeddl Parhaus a Llesiant Emosiynol			
Caiff y plant eu hannog i gynllunio eu dysgu eu hunain	Caiff y plant eu cefnogi wrth feddwl drwy'r hyn y maent yn ei wneud	Caiff y plant eu cefnogi i feddwl yn feirniadol, gan ddefnyddio adnoddau a osodwyd a sesiynau a arweinir gan ymarferwyr, megis olyniaeth, cymharu, cyferbynnu, a datrys problemau	Nid yw'r plant yn cael cefnogaeth yn seiliedig ar gynllunio, i ymestyn sgiliau meddwl a datblygiad cysyniadau'r plant
Caiff y plant eu hannog i werthuso eu gweithgareddau a chwarae	Mae'r plant yn cael profiad o gwestiynau agored a chaeedig syml	Caiff y plant eu cefnogi i ddod o hyd i'w datrysiadau eu hunain i'w ymholiadau, pan maent yn gofyn am gymorth	Ni chaiff y plant eu cefnogi i ddod o hyd i'w datrysiadau eu hunain

Mae gan y plant gyfleoedd, drwy gynllunio, i ddatblygu cysyniadau y maent wedi eu harchwilio yn flaenorol	Caiff y plant eu cefnogi i ymestyn eu sgiliau meddwl a datrys problemau drwy weithgareddau a chwestiynau sy'n seiliedig ar ganlyniadau dysgu a gynllunnir		
Caiff y plant eu cefnogi i weld sut mae'r cysyniadau y maent yn eu harchwilio yn cysylltu â bywyd go iawn a'u profiadau sy'n bodoli eisoes, e.e. drwy ymweliadau, lluniau, trafodaeth gyda rhieni/gofalwyr			

Gofal a Datblygiad

Pa mor dda mae darparwyr/ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach? Bydd arolygwyr yn ffurfio barn am pa mor dda y mae polisiâu a gweithdrefnau'r lleoliad ar gyfer diogelu a hyrwyddo llesiant plant yn cael eu gweithredu. Mae'r rhain yn cynnwys: y polisi diogelu plant, iechyd a diogelwch, gan gynnwys hylendid bwyd a'r ddarpariaeth ar gyfer rheoli heintiau, diogelwch tân, hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, rhoi meddyginiaeth yn ddiogel, cefnogi plant sydd â chyflyrau meddygol, rhoi cymorth cyntaf, diogelwch ar dripiâu ac ymweliadau, diogelwch ar y we, bwlio, rheoli ymddygiad plant, gan gynnwys ymyrraeth gorfforol ac ataliaeth.

Diogelu plant: Wrth ystyried pa mor effeithiol yw'r gweithdrefnau ar gyfer diogelu plant, bydd arolygwyr yn gwerthuso p'un a yw risgiau i blant yn cael eu nodi, p'un a yw arwyddion a symptomau camdriniaeth yn cael eu cydnabod a'u deall, a ph'un a yw polisi diogelu plant y lleoliad yn cael ei weithredu'n gywir.

Pa mor dda mae darparwyr/ymarferwyr yn rheoli rhyngweithiadau? Bydd arolygwyr yn ystyried p'un a yw: ymarferwyr yn gweithio yn unol â pholisi rheoli ymddygiad y lleoliad, eu bod yn gyson yn eu dull, gan roi ystyriaeth i blant unigol, fel nad oes unrhyw ddryswch ym meddwl y plentyn ynglŷn â'r hyn sy'n dderbyniol / yr hyn nad yw'n dderbyniol, eu bod yn gosod ffiniau realistig ac yn defnyddio sancsiynau priodol, gan ystyried cam datblygu'r plentyn, eu bod yn annog plant hŷn i gymryd cyfrifoldeb am eu hymddygiad eu hunain, eu bod yn modelu ymddygiad da.

Pa mor dda mae darparwyr/ymarferwyr yn hyrwyddo datblygiad plant ac yn diwallu eu hanghenion unigol? Bydd arolygwyr yn gwerthuso pa mor dda mae darparwyr/ymarferwyr: yn darparu awyrgylch/amgylchedd magwrol a gofalgwr ac yn darparu gofal ymatebol, yn gwybod, deall a diwallu anghenion a galluoedd unigol, yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn trin pob plentyn ag urddas a pharch, yn hyrwyddo datblygiad pob plentyn drwy gynllunio am amrywiaeth dda o gyfleoedd chwarae, dysgu a hamdden, yn gweithredu egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru, yn olrhain cynnydd plant, ac yn defnyddio gwybodaeth ac arsylwadau i gynllunio am y camau nesaf yn eu chwarae a dysgu. A all plant hŷn benderfynu a rheoli cynnwys eu chwarae drwy ddilyn eu syniadau a diddordebau eu hunain?

Bydd arolygwyr yn ystyried: y graddau y cynigir y lleoliad fynediad at bob maes dysgu i blant sydd ag anghenion ychwanegol, pa mor gyson mae'r lleoliad yn cynnal adolygiadau rheolaidd o gynnydd y plant, p'un a yw ymarferwyr yn ymgynghori â rhieni/gofalwyr yn rheolaidd, p'un a yw systemau grwpio a chymorth yn diwallu'r ystod o anghenion heb effeithio'n andwyol ar ehangder, cydbwysedd a pharhad chwarae a dysgu'r plant, pa mor dda mae'r lleoliad yn integreiddio, cefnogi a darparu ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol, fel y gallant ddatblygu, ansawdd y gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer plant ag anawsterau

emosiynol ac ymddygiadol, ansawdd y gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer plant ag anawsterau iaith a lleferydd, pa mor gyson mae'r lleoliad yn cynnal adolygiadau rheolaidd o gynnydd plant, p'un a yw'r ymarferwyr yn ymgynghori â'r rhieni/gofalwyr yn rheolaidd, y defnydd o leoliadau arbenigol, megis y lleoliadau iechyd, seicolegol a chymdeithasol, a'u cyfraniad.

Bydd arolygwyr yn cynnal arsylwad SOFI2 i gael darlun o sut brofiad mae plant yn ei gael yn y lleoliad.

Y Raddfa Cyd-feddwl Parhaus a Llesiant Emosiynol ar gyfer plant 2 i 5 oed – Asesu dysgu ac iaith. Defnyddio asesu i gefnogi ac ymestyn dysgu a meddwl yn feirniadol. (Denise Kingston, yr Athro Iram Siraj a'r Athro Ted Melhuish)

Rhagorol	Da	Digonol	Gwael
Mae bron pob un ymarferydd yn deall polisïau'n llawn ac yn eu gweithredu'n gyson ac yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch personol a llesiant	Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn deall ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch personol a llesiant	Mae llawer o ymarferwyr yn datblygu eu dealltwriaeth ac yn gweithio tuag at weithredu polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch personol a llesiant	Ychydig o ymarferwyr sy'n deall neu'n gweithredu polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch personol a llesiant
Mae bron pob un ymarferydd yn nodi ac yn rheoli risgiau yn rhagweithiol ac yn effeithiol	Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn nodi risgiau ac yn eu rheoli'n weithredol	Mae llawer o ymarferwyr yn dechrau deall sut i nodi a rheoli risgiau	Ychydig o ymarferwyr sy'n nodi a rheoli risgiau yn briodol

Mae bron pob un ymarferydd yn cefnogi plant i siarad neu fynegi eu hunain yn eithriadol o dda gan eu bod yn derbyn ymateb/rhyngweithiad effeithiol ac ystyrlon. Caiff iaith eu cartref ei dathlu a'i hyrwyddo	Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn cefnogi plant i siarad neu fynegi eu hunain yn dda gan eu bod yn derbyn ymateb/rhyngweithiad cyson. Caiff iaith eu cartref ei hyrwyddo	Mae llawer o ymarferwyr yn cefnogi plant i siarad neu fynegi eu hunain gan eu bod yn derbyn ymateb/rhyngweithiad priodol. Caiff iaith eu cartref ei chydabod	Ychydig o ymarferwyr sy'n cefnogi plant i siarad neu fynegi eu hunain gan eu bod yn derbyn ymateb/rhyngweithiad aneffeithiol. Ni chaiff iaith eu cartref ei chydabod
Mae diogelu yn cael ei flaenoriaethu ac mae gan bron pob un ymarferydd ddealltwriaeth drylwyr o'u cyfrifoldebau i amddiffyn plant	Mae diogelu yn cael ei flaenoriaethu ac mae gan y rhan fwyaf o ymarferwyr ddealltwriaeth dda iawn o'u cyfrifoldebau i amddiffyn plant	Caiff diogelu ei flaenoriaethu ac mae llawer o ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau i amddiffyn plant	Ni chaiff diogelu ei flaenoriaethu ac nid yw ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau i amddiffyn plant
Mae bron pob un ymarferydd yn gweithredu arferion glanhau cadarn a hylendid ardderchog yn gyson	Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn gweithredu arferion glanhau cadarn a hylendid da	Mae llawer o ymarferwyr yn gweithredu arferion glanhau a hylendid priodol	Nid yw ymarferwyr yn gweithredu arferion glanhau effeithiol a hylendid da

Mae bron pob un ymarferydd yn deall ac yn gweithredu'r canllawiau arferion gorau gan Lywodraeth Cymru, 'Bwyd a maeth ar gyfer lleoliadau gofal plant'	Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn deall ac yn gweithio'n weithredol tuag at weithredu'r canllawiau arferion gorau gan Lywodraeth Cymru, 'Bwyd a maeth ar gyfer lleoliadau gofal plant'	Mae llawer o ymarferwyr yn deall y prif themâu ac yn gweithio'n rhannol i'r canllawiau arferion gorau gan Lywodraeth Cymru, 'Bwyd a maeth ar gyfer lleoliadau gofal plant'	Nid yw ymarferwyr yn deall ac nid ydynt wedi gweithredu'r canllawiau arferion gorau gan Lywodraeth Cymru, 'Bwyd a maeth ar gyfer lleoliadau gofal plant'
Mae bron pob un ymarferydd yn deall y polisi rheoli ymddygiad yn llawn ac yn gweithredu strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol yn gyson	Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn deall y polisi rheoli ymddygiad ac yn gweithredu strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol yn gyson	Mae llawer o ymarferwyr yn deall y polisi rheoli ymddygiad ac yn gweithredu strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol yn gyffredinol	Nid yw ymarferwyr yn deall y polisi rheoli ymddygiad ac nid ydynt yn gweithredu strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol
Mae gan bron pob un ymarferydd ddealltwriaeth a gwybodaeth ragorol am ddatblygiad plant a sut mae hyn yn cael effaith ar ymddygiad y plant. Maent yn esiamplau da iawn bob amser	Mae gan y rhan fwyaf o ymarferwyr ddealltwriaeth a gwybodaeth dda am ddatblygiad plant a sut mae hyn yn cael effaith ar ymddygiad y plant. Maent yn esiamplau da bob amser	Mae gan lawer o ymarferwyr ddealltwriaeth a gwybodaeth sylfaenol am ddatblygiad plant a sut mae hyn yn cael effaith ar ymddygiad y plant. Maent yn esiamplau da y rhan fwyaf o'r amser	Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth annigonol o ddatblygiad plant a sut mae hyn yn cael effaith ar ymddygiad plant. Nid ydynt bob amser yn esiamplau da

Mae bron pob un ymarferydd yn gweithredu egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru, yn olrhain cynnydd y plant, ac yn defnyddio gwybodaeth ac arsylwadau i gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn eu chwarae a'u dysgu	Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn gweithredu egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru, yn olrhain cynnydd y plant, ac yn defnyddio gwybodaeth ac arsylwadau i gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn eu chwarae a'u dysgu	Mae llawer o ymarferwyr yn gweithredu egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru, yn olrhain cynnydd y plant, ac yn defnyddio gwybodaeth ac arsylwadau i gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn eu chwarae a'u dysgu	Nid yw ymarferwyr yn gweithredu egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru, yn olrhain cynnydd y plant, nac yn defnyddio gwybodaeth ac arsylwadau i gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn eu chwarae a'u dysgu
Mae bron pob un ymarferydd yn ymatebol yn gyson; maent wir yn gwrando ac yn parchu barn y plant. Mae'r rhyngweithiadau yn gadarnhaol iawn, gan arddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Mae bron pob un ymarferydd yn sensitif i anghenion a phrofiadau plant unigol	Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn ymatebol yn gyson; maent yn gwrando ac yn parchu barn y plant. Mae'r rhyngweithiadau yn gadarnhaol, gan arddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Mae bron pob un ymarferydd yn sensitif i anghenion a phrofiadau plant unigol	Mae llawer o'r ymarferwyr yn ymatebol; maent yn gwrando ac yn parchu barn y plant. Yn gyffredinol, mae'r rhyngweithiadau yn gadarnhaol, gan arddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Mae llawer o'r ymarferwyr yn sensitif i anghenion a phrofiadau'r plant	Nid yw ymarferwyr yn gyson ymatebol. Mae rhyngweithiadau yn niwtral neu wael ac nid yw'r ymarferwyr yn dangos llawer o barch, sensitifrwydd a chynhesrwydd tuag at blant
Mae gan bron pob un ymarferydd ddealltwriaeth gyfoethog o faterion amrywiaeth ac yn hyrwyddo hawliau plant o dan CCUHP yn llawn	Mae gan y rhan fwyaf o ymarferwyr ddealltwriaeth dda o faterion amrywiaeth ac yn hyrwyddo hawliau plant o dan CCUHP	Mae gan lawer o ymarferwyr ddealltwriaeth briodol o faterion amrywiaeth ac yn hyrwyddo hawliau plant o dan CCUHP yn gyffredinol	Ychydig o ymarferwyr sydd â dealltwriaeth o faterion amrywiaeth ac nid ydynt yn hyrwyddo hawliau plant o dan CCUHP

Mae bron pob un ymarferydd yn ymrwymedig i ddarparu ystod ardderchog o weithgareddau chwarae a dysgu	Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn ymrwymedig i ddarparu ystod eang o weithgareddau chwarae a dysgu	Mae llawer o ymarferwyr yn darparu ystod briodol o weithgareddau chwarae a dysgu	Ychydig o ymarferwyr sy'n deall ac yn hyrwyddo gweithgareddau chwarae a dysgu sy'n briodol o ran oedran
Mae bron pob un ymarferydd yn ymwybodol iawn o ddatblygiad unigol plant. Maent yn cynllunio'n hollgynhwysol ar gyfer y camau nesaf ac yn adolygu cynnydd yn gyson. Maent yn cadw rhieni wedi'u hysbysu'n llawn	Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn ymwybodol o ddatblygiad unigol plant. Maent yn cynllunio'n dda ar gyfer y camau nesaf ac yn adolygu cynnydd yn rheolaidd. Maent yn cadw rhieni wedi'u hysbysu	Mae llawer o ymarferwyr yn ymwybodol o ddatblygiad unigol plant. Maent yn cynllunio'n gymharol dda ar gyfer y camau nesaf ac yn adolygu cynnydd. Maent yn cadw rhieni wedi'u hysbysu yn gyffredinol	Ychydig o ymarferwyr sy'n ymwybodol o ddatblygiad unigol plant ac nid ydynt yn cynllunio ar gyfer y camau nesaf. Nid ydynt yn cadw'r rhieni wedi'u hysbysu
Mae bron pob un ymarferydd yn cyfrannu'n weithredol at gynllunio sy'n dangos cynnydd ac sy'n cefnogi anghenion unigol pob oed yn sylweddol. Mae pob ymarferydd yn cydnabod pan all plant fod ag anghenion ychwanegol. Maent yn cymryd camau pwrpasol mewn modd amserol ac yn gwneud defnydd effeithiol o'r gwasanaethau cymorth	Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn cyfrannu at gynllunio sy'n dangos cynnydd ac sy'n cefnogi anghenion unigol pob oed yn effeithiol. Mae bron pob ymarferydd yn cydnabod pan all plant fod ag anghenion ychwanegol. Maent yn cymryd camau priodol mewn modd amserol ac yn gwneud defnydd da o'r gwasanaethau cymorth	Mae llawer o'r ymarferwyr yn cyfrannu at gynllunio sy'n dangos cynnydd ac sy'n cefnogi anghenion unigol pob oed yn ddigonol. Mae llawer o ymarferwyr yn cydnabod pan all plant fod ag anghenion ychwanegol. Maent yn cymryd camau priodol ac yn gwneud defnydd o'r gwasanaethau cymorth	Ychydig o ymarferwyr sy'n cynllunio ac adolygu yn effeithiol i gefnogi anghenion unigol pob oed. Ychydig o ymarferwyr sy'n cydnabod pan all plant fod ag anghenion ychwanegol

Mae bron pob ymarferydd yn cefnogi ac yn darparu ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol, megis plant ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol a phlant ag anawsterau iaith a lleferydd, mewn ffordd sy'n berthnasol i'r plant yn eu gofal	Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn cefnogi ac yn darparu ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol, megis plant ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol a phlant ag anawsterau iaith a lleferydd, mewn ffordd sy'n berthnasol i'r plant yn eu gofal	Mae llawer o'r ymarferwyr yn cefnogi ac yn darparu ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol, megis plant ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol a phlant ag anawsterau iaith a lleferydd, mewn ffordd sy'n berthnasol i'r plant yn eu gofal	Nid yw ymarferwyr yn rhoi cefnogaeth ac yn darparu ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol, megis plant ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol a phlant ag anawsterau iaith a lleferydd, mewn ffordd sy'n berthnasol i'r plant yn eu gofal
Mae bron pob ymarferydd yn cefnogi plant trwy greu gofod y gallant chwarae ynddo a gweithredu egwyddorion gwaith chwarae	Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn cefnogi plant trwy greu gofod y gallant chwarae ynddo a gweithredu egwyddorion gwaith chwarae	Mae llawer o ymarferwyr yn cefnogi plant trwy greu gofod y gallant chwarae ynddo a gweithredu egwyddorion gwaith chwarae	Nid yw ymarferwyr yn cefnogi plant trwy greu gofod y gallant chwarae ynddo. Nid ydynt yn gweithredu egwyddorion gwaith chwarae
Wedi'i gymryd o'r Raddfa Cyd-feddwl Parhaus a Llesiant Emosiynol			

Mae ymarferwyr yn rhoi adborth i'r plant, yn gofyn cwestiynau agored, ac yn gwneud awgrymiadau	Mae ymarferwyr yn defnyddio asesu i lywio arferion yn y dyfodol, a chynllunio gweithgareddau dan arweiniad ymarferwyr a deunyddiau/adnoddau o fewn yr amgylchedd	Mae ymarferwyr yn asesu plant, gan wneud cysylltiadau â'u datblygiad parhaus	Mae ymarferwyr ond yn asesu i ddangos diwedd cam neu gynnydd mewn gweithgaredd
Mae ymarferwyr yn amlygu llwyddiannau ac anawsterau, heb fod yn feirniadol. Mae ymarferwyr yn rhoi adborth sy'n annog ymagweddau dysgu cadarnhaol megis dyfalbarhad, canolbwyntio a chwblhau	Mae ymarferwyr yn rhannu amcanion dysgu syml gyda'r plant yn ystod gweithgareddau a gefnogir gan ymarferwyr ac yn gwirio p'un a gyflawnwyd y rhain	Mae ymarferwyr yn defnyddio asesu i ddangos cynnydd i'r rhieni/gofalwyr ac i gefnogi cyfnodau pontio llyfn	Mae ymarferwyr ond yn nodi cerrig milltir mewn datblygiad
Mae ymarferwyr yn annog plant i roi adborth syml, cadarnhaol a chefnogol i'w gilydd	Mae ymarferwyr yn asesu ymgysylltiad plant â gweithgareddau ac yn newid gweithgareddau/adnoddau/ardaloedd yn dibynnu ar y defnydd a wneir ohonynt	Mae ymarferwyr yn asesu plant fel eu bod yn cael gwybod am unrhyw anawsterau dysgu a/neu ymddygiadol	

Yr Amgylchedd

Pa mor dda mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd? Bydd arolygwyr yn gwerthuso p'un a yw darparwyr/arweinwyr: yn sicrhau bod plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel, glân a sicr, yn sicrhau bod risgiau dianghenraid i blant wedi cael eu nodi a'u dileu i orau eu gallu, bod cydbwysedd rhwng yr angen i hyrwyddo diogelwch plant a'u gwarchod rhag niwed, a'r angen i gefnogi plant i gymryd risgiau. Pa mor dda mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Bydd arolygwyr yn gwerthuso p'un a yw darparwyr/arweinwyr: yn sicrhau bod y safle ac unrhyw feysydd chwarae yn yr awyr agored yn ddiogel, croesawgar a chyfeillgar ac yn darparu amgylchedd cyfoethog ar gyfer chwarae a dysgu, bod digon o ofod a chyfleusterau i ddiwallu anghenion y plant, bod gosodiad a chynllun yr amgylchedd yn hyrwyddo annibyniaeth plant ac yn cael eu hystyried o safbwynt y plentyn, bod y safle'n cael ei gynnal a'i addurno'n dda, bod cyfleusterau addas ar gyfer ymarferwyr ac ar gyfer sgysiau cyfrinachol, bod gofodau chwarae/hamdden ar gyfer plant hŷn yn cynnig heriau, risgiau a chyfleoedd addas i arbrofi. Pa mor dda mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau ansawdd adnoddau ac offer?

Bydd arolygwyr yn gwerthuso p'un a yw darparwyr/arweinwyr: yn sicrhau bod gan blant fynediad at ddodrefn, offer, teganau a deunyddiau sy'n briodol ac addas ar gyfer eu hanghenion, bod adnoddau o gynllun a chyflwr addas, wedi'u cynnal a'u cadw'n dda, ac yn cydymffurfio â'r safonau diogelwch priodol, bod adnoddau yn lân a bod y gwaith o'u cynnal a'u cadw yn cydymffurfio ag egwyddorion rheoli heintiau, bod teganau a deunyddiau chwarae yn hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chyfle cyfartal, bod y gofod yn yr awyr agored yn darparu cyfleoedd chwarae a dysgu priodol, bod digon o ddodrefn, teganau, adnoddau ac ati o faint plant ar gael ar gyfer maint y grŵp, bod defnydd o ystod eang o ddeunyddiau cynaliadwy yn cael ei hyrwyddo.

Mae 'arweinwyr' yn cyfeirio at bobl sy'n rhedeg y lleoliad. Wrth ddrafftio adroddiadau arolygu, rydym yn defnyddio 'pobl sy'n rhedeg y lleoliad'.

Rhagorol	Da	Digonol	Gwael
Mae gan arweinwyr fesurau/polisiâu cynhwysfawr ac effeithiol iawn ar waith i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch a llesiant plant yn llawn	Mae gan arweinwyr fesurau/polisiâu effeithiol ar waith i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch a llesiant plant	Mae gan arweinwyr fesurau/polisiâu boddhaol ar waith i sicrhau bod pawb yn gyffredinol ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch a llesiant plant	Nid oes gan arweinwyr fesurau/polisiâu digonol ar waith i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch a llesiant plant
Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, yn sicr, ac wedi'i gynnal a'i gadw'n eithriadol o dda, o dan do ac yn yr awyr agored	Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, yn sicr, ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, o dan do ac yn yr awyr agored	Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn gyffredinol ddiogel, yn sicr, ac wedi'i gynnal a'i gadw'n rhesymol o dda, o dan do ac yn yr awyr agored	Nid yw arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn sicr ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda o dan do ac yn yr awyr agored
Mae arweinwyr yn trefnu trefniadau glanhau cyson yn effeithiol sy'n adlewyrchu arferion hylendid ardderchog. Mae eu harferion rheoli heintiau hynod effeithiol yn lleihau unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch plant yn llwyddiannus	Mae arweinwyr yn trefnu trefniadau glanhau rheolaidd sy'n adlewyrchu arferion hylendid da. Mae eu harferion rheoli heintiau da yn lleihau unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch plant	Mae arweinwyr yn trefnu trefniadau glanhau sylfaenol sy'n adlewyrchu arferion hylendid boddhaol. Mae eu harferion rheoli heintiau digonol yn lleihau unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch plant yn gyffredinol	Nid yw arweinwyr yn trefnu trefniadau glanhau ac mae'r arferion rheoli heintiau a hylendid yn peri risg i iechyd a diogelwch plant

Mae arweinwyr yn cwblhau asesiadau cynhwysfawr a hynod effeithiol o risgiau cyffredinol a risgiau tân sy'n destun adolygiadau cyson ac y gweithredir arnynt. Mae'r rhain, ynghyd â gweithdrefnau brys, yn cael eu cyfleu'n glir i bob unigolyn perthnasol sy'n cael mynediad at yr amgylchedd	Mae arweinwyr yn cwblhau asesiadau effeithiol a manwl gywir o risgiau cyffredinol a risgiau tân sy'n destun adolygiadau rheolaidd ac y gweithredir arnynt. Mae'r rhain, ynghyd â gweithdrefnau brys, yn cael eu cyfleu i bob unigolyn perthnasol sy'n cael mynediad at yr amgylchedd	Mae arweinwyr yn cwblhau asesiadau boddhaol o risgiau cyffredinol a risgiau tân sy'n destun adolygiadau ac y gweithredir arnynt. Mae'r rhain, ynghyd â gweithdrefnau brys, yn cael eu rhannu â phobl berthnasol sy'n cael mynediad at yr amgylchedd	Nid yw arweinwyr wedi cwblhau asesiadau o risgiau cyffredinol a risgiau tân, nac wedi nodi'r holl risgiau. Ni allant roi tystiolaeth y rhennir gweithdrefnau brys gyda phobl berthnasol sy'n cael mynediad at yr amgylchedd
Mae arweinwyr yn sicrhau bod pob ymarferydd yn goruchwyllo plant yn dda ac yn deall ac yn asesu'r gwahaniaeth rhwng risgiau derbyniol ac annerbyniol a'r buddion ar gyfer grŵp oedran y plant maent yn gweithio gyda nhw	Mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn goruchwyllo plant a bod bron pob un yn deall ac yn asesu'r gwahaniaeth rhwng risgiau derbyniol ac annerbyniol a'r buddion ar gyfer grŵp oedran y plant maent yn gweithio gyda nhw	Mae arweinwyr yn gyffredinol yn sicrhau bod ymarferwyr yn goruchwyllo plant yn ddigonol a bod llawer yn deall ac yn asesu'r gwahaniaeth rhwng risgiau derbyniol ac annerbyniol a'r buddion ar gyfer grŵp oedran y plant maent yn gweithio gyda nhw	Nid yw arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn goruchwyllo plant a'u bod yn deall ac yn asesu'r gwahaniaeth rhwng risgiau derbyniol ac annerbyniol a'r buddion ar gyfer grŵp oedran y plant maent yn gweithio gyda nhw
Mae arweinwyr yn sicrhau bod gan yr amgylchedd ofod chwarae dan do helaeth er mwyn i blant symud yn rhydd ac archwilio. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd bob amser yn diwallu bron holl anghenion y plant ac yn eu galluogi i gyrraedd eu llawn botensial	Mae arweinwyr yn sicrhau bod gan yr amgylchedd ofod chwarae dan do da er mwyn i blant symud yn rhydd. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu'r rhan fwyaf o anghenion y plant ac yn galluogi'r rhan fwyaf ohonynt i gyrraedd eu llawn botensial	Mae arweinwyr yn sicrhau bod gan yr amgylchedd ofod chwarae digonol o dan do er mwyn i'r plant symud yn rhydd y rhan fwyaf o'r amser. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu llawer o anghenion y plant ac yn galluogi llawer	Nid yw arweinwyr wedi sicrhau bod yr amgylchedd yn darparu gofod digonol er mwyn i'r plant symud yn rhydd. Nid ydynt yn sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu anghenion y plant a'i fod yn eu galluogi i gyrraedd eu llawn botensial

		ohonynt i gyrraedd eu llawn botensial	
Mae arweinwyr yn sicrhau bod unrhyw ofod chwarae yn yr awyr agored yn cael ei ddefnyddio mor aml â phosibl ac yn estyniad i'r amgylchedd dysgu. Maent yn ymestyn gwybodaeth a datblygiad plant yn yr awyr agored drwy gynnig ystod helaeth o adnoddau sy'n herio ac yn ysgogi eu chwilfrydedd a'u diddordeb yn gyson	Mae arweinwyr yn sicrhau bod unrhyw ofod chwarae yn yr awyr agored yn cael ei ddefnyddio mor aml â phosibl. Maent yn ymestyn gwybodaeth a datblygiad plant yn yr awyr agored drwy gynnig ystod dda o adnoddau sy'n ysgogi eu chwilfrydedd a'u diddordeb	Mae arweinwyr yn sicrhau bod unrhyw ofod chwarae yn yr awyr agored yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd. Maent yn ymestyn gwybodaeth a datblygiad y plant yn yr awyr agored drwy gynnig ystod sylfaenol o adnoddau sy'n briodol o ran oedran	Nid yw arweinwyr yn sicrhau bod y gofod chwarae yn yr awyr agored yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd. Mae'r adnoddau yn yr awyr agored yn gyfyngedig
Mae arweinwyr yn trefnu'r amgylchedd yn effeithiol fel ei fod yn darparu ystod gynhwysfawr o gyfleoedd chwarae cyffrous sy'n addas ar gyfer pob ystod oedran y gofalir amdani	Mae arweinwyr yn trefnu'r amgylchedd yn dda fel ei fod yn darparu ystod dda o gyfleoedd chwarae sy'n addas ar gyfer bron pob ystod oedran y gofalir amdani	Mae arweinwyr yn trefnu'r amgylchedd yn briodol fel ei fod yn darparu ystod foddhaol o gyfleoedd chwarae sy'n addas ar gyfer y rhan fwyaf o'r ystodau oedran y gofalir amdanynt	Mae arweinwyr yn trefnu'r amgylchedd yn wael ac mae yna ystod gyfyngedig o gyfleoedd chwarae sy'n addas ar gyfer yr ystodau oedran y gofalir amdanynt

Mae'r safle yn groesawgar iawn, yn gynnes, ac yn hygyrch i bawb. Mae'n cael ei gynnal yn rhagorol gyda gwres ac awyru cyson ac effeithiol yn ddibynol ar y tymheredd	Mae'r safle yn groesawgar, yn gynnes, ac yn hygyrch i bawb. Mae'n cael ei gynnal yn dda gyda gwres ac awyru cyson a da yn ddibynol ar y tymheredd	Yn gyffredinol, mae'r safle yn groesawgar, yn gynnes, ac yn hygyrch i'r mwyafrif. Mae wedi'i gynnal a'i gadw'n ddigonol gyda gwres ac awyru boddhaol yn ddibynol ar y tymheredd	Nid yw'r safle yn groesawgar a chynnes ac nid yw'n hygyrch iawn. Mae wedi'i gynnal a'i gadw'n wael gyda gwres ac awyru amhriodol
Mae arweinwyr yn sicrhau y gall pob plentyn gael mynediad hawdd at amrywiaeth helaeth o ddodrefn, teganau ac offer sy'n briodol o ran oedran ac o ansawdd rhagorol, o dan do ac yn yr awyr agored, i ysgogi diddordeb a dychymyg y plant	Mae arweinwyr yn sicrhau y gall bron pob un plentyn gael mynediad at amrywiaeth eang o ddodrefn, teganau ac offer sy'n briodol o ran oedran ac o ansawdd da, o dan do ac yn yr awyr agored, i ysgogi diddordeb a dychymyg y plant	Mae arweinwyr yn sicrhau bod llawer o blant yn cael mynediad at amrywiaeth foddhaol o ddodrefn, teganau ac offer sy'n briodol o ran oedran ac o ansawdd da, o dan do ac yn yr awyr agored. Mae yna adnoddau digonol i gadw diddordeb y plant	Nid yw arweinwyr yn sicrhau bod gan blant fynediad at ddodrefn, teganau ac offer sy'n briodol o ran oedran ac o ansawdd da, o dan do neu yn yr awyr agored, ac mae rhai adnoddau wedi torri ac yn fudr ac yn cyflwyno peryglon a risgiau
Mae arweinwyr yn ymrwymedig i ddarparu adnoddau ysgogol i hyrwyddo chwilfrydedd plant am y gymdeithas ehangach, gan ddathlu cydraddoldeb ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol	Mae arweinwyr yn darparu adnoddau da i hyrwyddo chwilfrydedd plant am y gymdeithas ehangach, gan hyrwyddo cydraddoldeb a dysgu am ymwybyddiaeth ddiwylliannol	Mae arweinwyr yn darparu rhywfaint o adnoddau i hyrwyddo chwilfrydedd plant am y gymdeithas ehangach, gan hyrwyddo cydraddoldeb a chodi ymwybyddiaeth ddiwylliannol	Nid yw arweinwyr yn darparu adnoddau sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chyfle cyfartal, neu adnoddau cyfyngedig yn unig

Mae yna faes chwarae diddorol a chyffrous mawr yn yr awyr agored sydd wedi'i gynnal a'i gadw'n dda iawn ac sy'n cyflwyno cyfleoedd ardderchog a heriol ar gyfer y plant a/neu nid oes maes chwarae yn yr awyr agored ond mae arweinwyr yn gwneud trefniadau ardderchog ac arloesol i ddarparu plant â phrofiad yn yr awyr agored	Mae yna faes chwarae maint da yn yr awyr agored sy'n cael ei gynnal a'i gadw yn dda ac sy'n cyflwyno cyfleoedd diddorol ar gyfer y plant / nid oes maes chwarae yn yr awyr agored ond mae'r arweinwyr yn gwneud trefniadau arloesol i ddarparu cyfleoedd yn yr awyr agored ar gyfer y plant	Mae yna faes chwarae yn yr awyr agored sy'n cael ei gynnal a'i gadw ac sy'n cynnig rhywfaint o gyfleoedd chwarae ar gyfer y plant / nid oes maes chwarae yn yr awyr agored ond mae arweinwyr yn gwneud trefniadau amgen i fynd â'r plant i'r awyr agored	Mae'r maes chwarae yn yr awyr agored wedi'i gynnal a'i gadw'n wael ac yn cyflwyno risgiau a pheryglon i blant Nid oes maes chwarae yn yr awyr agored ar gael, ac ni chynigir trefniadau amgen neu eu bod yn annigonol/perylus
---	--	---	---

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth? Dylai arolygwyr werthuso p'un a yw darparwyr/arweinwyr: yn cydymffurfio â'r holl reoliadau perthnasol ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, yn meddu ar ddatganiad o ddiben clir sy'n darparu llun cywir o'r lleoliad, yn cyfathrebu eu gweledigaeth ar gyfer y lleoliad yn dda, yn hyrwyddo arferion diogel a diwylliant o ddiogelwch, yn cefnogi a herio pawb i wneud eu gorau yn weithredol, yn gosod disgwyliadau uchel, yn datblygu ymdeimlad o bwrpas sy'n hyrwyddo ac yn cynnal gwelliannau, yn rhannu eu gwerthoedd a normau ynghylch dysgu, ymddygiad, cydberthnasau a datblygiad proffesiynol parhaus, yn gosod nodau a pholisïau clir sy'n canolbwyntio ar anghenion plant ac sydd wedi'u deall a'u gweithredu gan yr holl ymarferwyr ac ar gael i rieni, yn monitro a gwerthuso canlyniadau ar gyfer plant, yn cadw'r unigolyn/unigolion cofrestredig / unigolyn cyfrifol wedi'u hysbysu'n dda am gynnydd y lleoliad, yn creu ethos cadarnhaol lle mae plant ac ymarferwyr yn teimlo wedi'u gwerthfawrogi. Pa mor effeithiol yw hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Bydd arolygwyr yn ystyried p'un a yw proses hunanwerthuso'r lleoliad: yn tynnu ar dystiolaeth gynradd o ansawdd y gofal a ddarperir ac yn cynnwys yr holl ymarferwyr wrth asesu canlyniadau a'u perfformiadau eu hunain, megis myfyrio ar yr hyn y maent yn ei wneud bob dydd, yn cymryd ystyriaeth o farn yr ymarferwyr, rhieni/gofalwyr, plant, y pwyllgor rheoli a rhanddeiliaid eraill sy'n berthnasol i'r lleoliad, ac y caiff adroddiad ei lunio a'i rannu gyda chyfranwyr, yn tynnu ar gyngor ac adborth gan asiantaethau allanol, lle bo'n briodol, yn blaenoriaethu'r materion maent yn dymuno eu gwella, yn gweithredu strategaethau cadarn sy'n debygol o gyflawni'r gwelliannau dymunol, yn cymryd ystyriaeth o p'un a yw pryderon/cwynion wedi cael sylw priodol, yn arwain at welliant yn ansawdd y gofal, chwarae a dysgu a ddarperir. Pa mor effeithiol yw'r gwaith o reoli ymarferwyr ac adnoddau eraill?

Bydd arolygwyr yn gwerthuso pa mor dda mae darparwyr/arweinwyr: yn dilyn prosesau recriwtio diogel, cadarn ac amserol, yn diffinio rolau a chyfrifoldebau, yn gweithredu system effeithiol o oruchwylio ac arfarnu ymarferwyr sy'n arwain at dargedau cytunedig, yn sicrhau bod digon o ymarferwyr cymwysedig a phrofiadol ar gyfer yr ystod o blant y gofalir amdani a'u bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol, yn datblygu cynlluniau ymarferwyr wrth gefn i gyflenwi pan nad yw ymarferwyr yng nghwmni'r plant, yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn deall ac yn cyflawni eu rolau mewn perthynas â nodau'r lleoliad, yn rheoli eu hamser eu hunain a blaenoriaethu eu gweithgareddau eu hunain yn ymatebol, yn cyfathrebu disgwyliadau uchel i'r rhai maent yn eu rheoli, yn cytuno a chyflawni targedau heriol a realistig ar gyfer eu hunain ac eraill, yn sicrhau canlyniadau priodol ar gyfer plant yn gyffredinol.

Pa mor effeithiol yw partneriaethau? Bydd arolygwyr yn ystyried p'un a yw'r lleoliad yn glir am ei rôl a'i gyfrifoldebau i sefydlu ymddiriedaeth a chyfathrebu clir rhwng partneriaid. Bydd arolygwyr yn gwerthuso pa mor dda mae darparwyr/arweinwyr: yn gweithio gyda rhieni i ystyried anghenion a dewisiadau unigol eu plentyn cyn ac yn ystod eu hamser yn y lleoliad, yn gweithio gyda rhieni i wella llesiant a dysgu eu plentyn bob dydd, yn cadw rhieni wedi'u hysbysu am lesiant, gofal, datblygiad a chynnydd

eu plentyn, yn cynnwys rhieni wrth wneud penderfyniadau am gynnydd a llesiant eu plentyn, yn darparu gwybodaeth i rieni am bolisïau a gweithdrefnau'r lleoliad, yn datblygu cysylltiadau gyda phartneriaid yn y gymuned.

Rhagorol	Da	Digonol	Gwael
Mae gan arweinwyr weledigaeth arloesol ar gyfer y lleoliad y maent yn ei rhannu'n effeithiol ag eraill	Mae gan arweinwyr weledigaeth gref ar gyfer y lleoliad y maent yn ei rhannu ag eraill	Mae gan arweinwyr weledigaeth sylfaenol ar gyfer y lleoliad y maent yn ei rhannu ag eraill	Nid oes gan arweinwyr weledigaeth neu maent yn aneglur ynglŷn â'r weledigaeth ar gyfer y lleoliad
Mae arweinwyr yn cynnal a rhannu datganiad o ddiben cynhwysfawr a phroffesiynol cyfredol sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir ac sy'n mynd y tu hwnt i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol	Mae arweinwyr yn cynnal a rhannu datganiad o ddiben effeithiol a chyfredol sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir ac sy'n bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol	Mae gan arweinwyr ddatganiad o ddiben boddhaol a chyfredol sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir ac sy'n bodloni'r rhan fwyaf o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol	Mae gan yr arweinwyr ddatganiad o ddiben sylfaenol iawn ac mae'r wybodaeth ar goll neu wedi dyddio
Mae arweinwyr yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â'r holl reoliadau perthnasol ac yn mynd y tu hwnt i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn gyson. Maent yn wybodus iawn am eu cyfrifoldebau rheoliadol	Mae arweinwyr yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â bron pob un rheoliad perthnasol ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Maent yn wybodus am eu cyfrifoldebau rheoliadol	Mae arweinwyr yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â llawer o reoliadau perthnasol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae ganddynt wybodaeth ddigonol o'u cyfrifoldebau rheoliadol	Nid yw arweinwyr yn cydymffurfio â'r holl reoliadau perthnasol ac nid ydynt yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Nid ydynt yn hollol ymwybodol o'u cyfrifoldebau rheoliadol

Mae arweinwyr yn adolygu a diweddarau eu polisïau unigol yn rheolaidd ac yn sicrhau bod y rhain yn cael eu gweithredu'n llawn yn ymarferol	Mae arweinwyr yn adolygu eu polisïau yn aml ac yn sicrhau bod y rhain yn cael eu gweithredu'n ymarferol ar y cyfan	Mae arweinwyr weithiau yn adolygu eu polisïau ac yn sicrhau bod y rhain yn cael eu gweithredu'n ymarferol ar y cyfan	Nid yw arweinwyr yn adolygu eu polisïau ac nid ydynt yn sicrhau bod y rhain yn cael eu gweithredu'n ymarferol
Mae arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel, maent yn ysbrydoli ac arwain eu timau yn effeithiol, ac yn herio unrhyw berfformiad gwael yn gadarn	Mae arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel, maent yn annog eu timau yn weithredol, ac maent yn herio unrhyw berfformiad gwael yn effeithiol	Mae arweinwyr yn gosod disgwyliadau clir, yn rheoli eu timau yn foddhaol, ac yn herio unrhyw berfformiad gwael yn ddigonol	Nid yw arweinwyr yn gosod disgwyliadau clir; maent yn aneffeithiol wrth reoli eu timau ac nid ydynt wastad yn herio perfformiad gwael
Mae arweinwyr yn hyrwyddo arferion gorau cyfredol sy'n berthnasol i'r plant yn eu gofal yn effeithiol	Mae arweinwyr yn gweithredu arferion gorau cyfredol sy'n berthnasol i'r plant yn eu gofal	Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth o arferion gorau cyfredol sy'n berthnasol i'r plant yn eu gofal	Nid yw arweinwyr yn sicrhau eu bod yn gwybod yr arferion gorau cyfredol sy'n berthnasol i'r plant yn eu gofal

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth ragorol o'u cyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg. Maent yn bodloni rhwymedigaethau'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg	Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg. Maent yn bodloni rhwymedigaethau'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg a/neu maent yn gweithio tuag at fodloni'r Cynnig Rhagweithiol yn weithredol	Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth sylfaenol o'u cyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg. Maent yn gweithio tuag at sawl elfen o'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg	Nid oes gan arweinwyr ddealltwriaeth o'u cyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg. Nid ydynt yn gwneud ymdrech i fodloni'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg
Mae arweinwyr yn archwilio cofnodion yn gyson i sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n fanwl gywir a bod gwelliannau yn cael eu gwneud pan gânt eu nodi	Mae arweinwyr yn sicrhau bod y cofnodion gofynnol yn cael eu cadw'n fanwl gywir	Mae arweinwyr yn sicrhau bod y rhan fwyaf o'r cofnodion gofynnol yn cael eu cadw	Nid yw arweinwyr yn sicrhau bod yr holl gofnodion gofynnol yn cael eu cadw
Mae arweinwyr yn ymgysylltu'n rheolaidd ag AGC / rheoleiddwyr eraill ac yn cymryd cyfrifoldeb i hysbysu AGC o bob digwyddiad arwyddocaol mewn modd amserol	Mae arweinwyr yn sicrhau eu bod yn ymgysylltu ag AGC / rheoleiddwyr eraill ac yn hysbysu AGC o ddigwyddiadau arwyddocaol	Mae arweinwyr yn ymgysylltu ag AGC / rheoleiddwyr eraill ac yn hysbysu AGC o'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau arwyddocaol	Nid yw arweinwyr yn ymgysylltu ag AGC / rheoleiddwyr eraill ac nid ydynt yn hysbysu AGC o ddigwyddiadau arwyddocaol

Mae arweinwyr yn gweithredu eu cynllun gweithredu cynhwysfawr yn rhagweithiol, ac yn ei adolygu, sy'n gyrru gwelliant. Caiff ei rannu â phob unigolyn perthnasol	Mae arweinwyr yn adolygu eu cynllun gweithredu yn rheolaidd. Caiff ei rannu â phob unigolyn perthnasol	Mae arweinwyr yn sicrhau bod yna gynllun gweithredu sylfaenol ar waith a rennir â phob unigolyn perthnasol	Nid oes gan arweinwyr gynllun gweithredol
Mae arweinwyr yn gallu arddangos eu bod wedi gweithredu'r canllawiau arferion gorau gan Lywodraeth Cymru, 'Bwyd a maeth ar gyfer lleoliadau gofal plant', yn llawn	Gall arweinwyr arddangos eu bod yn gweithio'n weithredol tuag at weithredu'r canllawiau arferion gorau gan Lywodraeth Cymru, 'Bwyd a maeth ar gyfer lleoliadau gofal plant'	Gall arweinwyr arddangos eu bod wedi gweithredu'r canllawiau arferion gorau gan Lywodraeth Cymru, 'Bwyd a maeth ar gyfer lleoliadau gofal plant', yn rhannol	Mae arweinwyr wedi methu arddangos bod y canllawiau arferion gorau gan Lywodraeth Cymru, 'Bwyd a maeth ar gyfer lleoliadau gofal plant', wedi'u gweithredu
Mae arweinwyr yn gweithredu hunanwerthuso parhaus ac ystyrlon yn effeithiol. Maent yn ceisio awgrymiadau plant, eu rhieni/gofalwyr, ymarferwyr a phartneriaid eraill sydd â diddordeb yn rheolaidd ac yn eu gweithredu'n weithredol	Mae arweinwyr yn gweithredu hunanwerthuso yn weithredol. Maent yn ceisio awgrymiadau plant, eu rhieni/gofalwyr, ymarferwyr a phartneriaid eraill sydd â diddordeb, ac yn eu gweithredu	Mae arweinwyr yn adolygu ansawdd y gofal yn flynyddol. Maent weithiau yn ceisio awgrymiadau plant, eu rhieni/gofalwyr, ymarferwyr a phartneriaid eraill sydd â diddordeb	Nid yw arweinwyr yn gweithredu prosesau hunanwerthuso ac nid ydynt yn ceisio awgrymiadau plant, eu rhieni/gofalwyr, ymarferwyr a phartneriaid eraill sydd â diddordeb

Mae gan arweinwyr brosesau rhagorol wrth ddelio ag unrhyw bryderon. Maent yn myfyrio ar eu hymarfer yn effeithiol i wneud gwelliannau ar unwaith a chydabod gwersi a ddysgwyd	Mae gan arweinwyr brosesau da wrth ddelio ag unrhyw bryderon ac yn gweithredu gwelliannau mewn modd amserol	Mae gan arweinwyr brosesau sylfaenol wrth ddelio ag unrhyw bryderon ac maent yn gweithredu gwelliannau	Mae arweinwyr yn methu mynd i'r afael â phryderon a ddaw i'w sylw ac nid ydynt yn rhoi ystyriaeth i wersi a ddysgwyd, gan arwain at arferion drwg parhaus
Mae arweinwyr yn sicrhau bod plant yn cael eu cefnogi ac y gwrandewir arnynt os bydd angen iddynt godi pryderon/cwynion	Mae gan arweinwyr brosesau effeithiol ar waith i alluogi plant i godi pryderon/cwynion	Mae gan arweinwyr brosesau digonol ar waith i alluogi plant i godi pryderon/cwynion	Nid oes gan arweinwyr brosesau ar waith i gefnogi/galluogi plant i godi pryderon/cwynion
Mae arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio amserol a chadarn yn gyson i ddiogelu plant. Mae ganddynt systemau rhagorol ar waith i sicrhau bod gwiriadau addasrwydd yn cael eu diweddarau mewn modd amserol	Mae arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio amserol a chadarn i ddiogelu plant. Mae ganddynt systemau da ar waith i ddiweddarau gwiriadau addasrwydd yn ôl y gofyn	Mae arweinwyr yn dilyn proses recriwtio ddiogel i ddiogelu plant. Mae ganddynt systemau boddhaol ar waith i ddiweddarau gwiriadau addasrwydd yn ôl y gofyn	Mae arweinwyr yn methu gweithredu prosesau recriwtio diogel i ddiogelu plant. Mae ganddynt systemau aneffeithiol ar waith i ddiweddarau gwiriadau addasrwydd

Mae arweinwyr yn gweithredu gweithdrefn sefydlu effeithiol yn gyson ar gyfer pob gwirfoddolwr ac ymarferydd	Mae arweinwyr yn gweithredu gweithdrefn sefydlu dda ar gyfer pob gwirfoddolwr ac ymarferydd	Mae arweinwyr yn gweithredu gweithdrefn sefydlu briodol ar gyfer y rhan fwyaf o wirfoddolwyr ac ymarferwyr	Nid oes gan arweinwyr systemau ar waith i sicrhau bod ymarferwyr/gwirfoddolwyr yn cael cyfnod sefydlu priodol
Mae'r broses rheoli perfformiad yn drylwyr iawn ac yn ysgogi pob ymarferydd i ragori drwy nodi cynlluniau hyfforddi unigol. Gwelir goruchwyliaeth ac arfarniadau ystyrlon rheolaidd yn hanfodol i'w harferion ac maent yn gyrru gwelliannau	Mae'r broses rheoli perfformiad yn dda ac yn annog ymarferwyr i fynychu ystod o hyfforddiant ac i gymhwyso eu dysgu. Cynhelir goruchwyliaeth ac arfarniadau da yn rheolaidd	Mae'r broses rheoli perfformiad yn foddhaol ac yn annog ymarferwyr i fynychu hyfforddiant gorfodol. Caiff goruchwyliaeth ac arfarniadau sylfaenol eu cynnal weithiau	Mae'r broses rheoli perfformiad yn anfoddhaol ac ni chedwir hyfforddiant gorfodol yn gyfredol. Ni chynhelir llawer o oruchwyliaeth ac arfarniadau, os o gwbl
Mae yna ddiwylliant cryf o ddatblygiad proffesiynol parhaus sy'n cael ei fodelu gan arweinwyr	Mae yna ddiwylliant o ddatblygiad proffesiynol parhaus sy'n cael ei fodelu gan arweinwyr	Mae yna ddiwylliant o ddatblygiad proffesiynol	Nid oes diwylliant o ddatblygiad proffesiynol

Mae arweinwyr yn sicrhau'n gyson bod ymarferwyr yn cael eu defnyddio'n effeithiol i sicrhau bod cymarebau staffio yn cael eu bodloni, ac yr eir y tu hwnt iddynt yn aml, a bod anghenion plant yn cael eu diwallu'n llawn	Mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn cael eu defnyddio'n dda i sicrhau bod cymarebau staffio yn cael eu bodloni a bod anghenion plant yn cael eu diwallu	Mae arweinwyr fel arfer yn sicrhau bod ymarferwyr yn cael eu defnyddio i sicrhau bod cymarebau staffio yn cael eu bodloni yn gyffredinol a bod y rhan fwyaf o anghenion plant yn cael eu diwallu	Nid yw arweinwyr yn sicrhau bod digon o ymarferwyr ar gael, neu'n eu bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol, gan arwain at fethiant i ddiwallu anghenion llawer o blant
Mae arweinwyr yn sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer pob absenoldeb gan ymarferwyr.	Mae arweinwyr yn sicrhau bod trefniadau da ar waith ar gyfer absenoldeb ymarferwyr	Mae arweinwyr yn sicrhau bod trefniadau sylfaenol ar waith ar gyfer y rhan fwyaf o absenoldebau gan ymarferwyr	Nid yw arweinwyr yn trefnu bod trefniadau ar waith ar gyfer ymarferwyr ychwanegol yn ystod y rhan fwyaf o absenoldebau gan ymarferwyr, gan gael effaith negyddol ar lesiant plant
Mae arweinwyr yn sicrhau bod pob system gyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni yn arloesol ac yn hollol gynhwysol. Maent yn cadw rhieni wedi'u hysbysu'n eithriadol o dda	Mae arweinwyr yn sicrhau bod pob system gyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni yn dda. Maent yn cadw rhieni wedi'u hysbysu'n dda	Mae arweinwyr yn sicrhau bod systemau cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni yn ddigonol. Maent yn cadw rhieni wedi'u hysbysu yn gyffredinol	Nid oes gan arweinwyr systemau cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni ar waith a/neu maent yn aneffeithiol

Mae gan arweinwyr gysylltiadau cryf iawn gydag ystod eang o weithwyr proffesiynol, y gymuned a rhanddeiliaid eraill	Mae gan arweinwyr gysylltiadau da gydag ystod o weithwyr proffesiynol, y gymuned a rhanddeiliaid eraill	Mae arweinwyr yn datblygu cysylltiadau â gweithwyr proffesiynol perthnasol, y gymuned a rhanddeiliaid eraill	Nid oes gan arweinwyr gysylltiadau sefydledig gyda gweithwyr proffesiynol, y gymuned a rhanddeiliaid eraill
Mae arweinwyr yn ymateb yn gadarnhaol yn gyson i wybodaeth a chyngor a roddir i wella llesiant ac anghenion dynodedig plant	Mae arweinwyr yn ymateb yn gadarnhaol i wybodaeth a chyngor a roddir i wella llesiant ac anghenion dynodedig plant	Mae arweinwyr yn ymateb yn gadarnhaol yn bennaf i wybodaeth a chyngor a roddir i wella llesiant ac anghenion dynodedig plant	Nid yw arweinwyr yn ymateb i wybodaeth a chyngor a roddir i wella llesiant ac anghenion dynodedig plant
Mae arweinwyr yn sicrhau, pan fydd pryderon am gynnydd neu ddatblygiad plant, fod gweithdrefnau a phrotocolau clir ac effeithiol ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth. Caiff y rhain eu dilyn yn gyson ac mae bron pob un plentyn wedi buddio llawer o'r camau a gymerwyd	Mae arweinwyr yn sicrhau, pan fydd pryderon am gynnydd neu ddatblygiad plant, fod gweithdrefnau a phrotocolau ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth. Caiff y rhain eu dilyn yn gyson ac mae'r rhan fwyaf o blant wedi buddio o'r camau a gymerwyd	Mae arweinwyr yn sicrhau, pan fydd pryderon am gynnydd neu ddatblygiad plant, fod gweithdrefnau a phrotocolau sylfaenol ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth. Mae llawer o blant wedi buddio o'r camau a gymerwyd	Nid oes gan arweinwyr weithdrefnau a phrotocolau ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth lle mae pryderon am gynnydd neu ddatblygiad plant